Cyllid &
Thollau EM

# Canllaw ar gyfer Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Rhagarweiniad | Tudalen 3 |
| 2 | Credyd Treth Plant | Tudalen 4 |
| 3 | Credyd Treth Gwaith | Tudalen 6 |
| 4 | Incwm a chyfalaf | Tudalen 18 |
| 5 | Sut y cyfrifir eich dyfarniad credydau treth | Tudalen 22 |
| 6 | Help a chyngor | Tudalen 29 |
| 7 | Credyd Cynhwysol a chredydau treth | Tudalen 31 |
| 8 | Eich hawliau a'ch rhwymedigaethau | Tudalen 32 |


Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl ag anabledd. Mae'r rhain yn cynnwys arweiniad mewn Braille, ar sain ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni hefyd ar gael mewn print bras. Cysylltwch â Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF am ragor o wybodaeth.

Ffoniwch 0300 200 1900 i dderbyn fersiynau Cymraeg o ffurflenni a chanllawiau.

# 1 Rhagarweiniad

Mae rhagor o wybodaeth am y Credyd Treth Plant ar dudalen 4 a'r Credyd Treth Gwaith ar dudalen 6.

I roi gwybod am newid, ewch i www.gov.uk/newidiadau-effeithio-credydau-treth

Mae dau fath gwahanol o gredyd treth, Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith.

Mae'r arweiniad hwn yn esbonio'n fanwl beth ydyn nhw.

> Mae credydau treth wedi cael eu disodli gan Gredyd Cynhwysol.
>
> Gallwch ond gwneud hawliad am Gredyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith os ydych eisoes yn cael credydau treth. Bydd angen i chi ddiweddaru'ch hawliad presennol am gredydau treth drwy roi gwybod am newid yn eich amgylchiadau ar-lein neu'n ysgrifenedig.

Nid yw Credyd Treth Plant na Chredyd Treth Gwaith yn effeithio ar daliadau Budd-dal Plant, yr ydym yn eu talu ar wahân.

Mae Credyd Treth Plant yn rhoi cymorth i deuluoedd â phlant. Gall hyn gynnwys plant tan iddynt gyrraedd eu pen-blwydd yn 16 oed a phobl ifanc rhwng 16 a 19 oed.

Mae Credyd Treth Gwaith ar gyfer pobl sy'n gweithio ac ar incwm isel. Mae'n seiliedig ar yr oriau yr ydych yn gweithio ac yn cael eich talu amdanynt neu yn disgwyl cael eich talu amdanynt. Gallwch hawlio p'un ai'ch bod yn gyflogai neu'n hunangyflogedig. Nid yw gwaith di-dâl yn cyfrif tuag at Gredyd Treth Gwaith. Mae'n bosibl y gallwch hefyd gael help gyda chostau gofal plant.

Caiff Credyd Treth Gwaith ei dalu ar ben unrhyw Gredyd Treth Plant y gallai fod hawl gennych iddo.

Ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900 os oes angen rhagor o help arnoch.

> Ni allwch gael elfen plentyn y Credyd Treth Plant mwyach ar gyfer trydydd plentyn neu blentyn a gafodd ei eni ar ôl 6 Ebrill 2017, oni bai bod un o'r eithriadau'n gymwys.
>
> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/guidance/child-tax-credit-exceptions-to-the-2-child-limit.cy
>
> Bydd elfen anabledd y Credyd Treth Plant ac elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith yn cael eu talu ar gyfer pob plentyn cymwys, hyd yn oed os na fyddwn yn talu'r elfen plentyn unigol ar gyfer y plentyn hwnnw.
>
> Rhowch wybod am enedigaeth plentyn bob tro ac unrhyw newidiadau sy'n ymwneud â'ch plant neu'ch pobl ifanc oherwydd mae'n bosibl y gallwch gael mwy o arian.

## Hawlio credydau treth fel cwpl neu fel person sengl

Gweler hefyd y nodiadau ynglŷn ag elfen cwpl y Credyd Treth Gwaith ar dudalen 8.

Mae'n bwysig eich bod yn deall y gwahaniaethau rhwng hawlio fel person sengl a hawlio fel cwpl. Os byddwch yn gwneud hyn yn anghywir, gallech fod yn cronni gordaliad y bydd efallai'n rhaid i chi'i dalu'n ôl. Efallai hefyd y bydd yn rhaid i chi dalu cosb.

Rhaid i chi hawlio fel cwpl os ydych wedi priodi, yn byw gyda rhywun fel petaech wedi priodi, neu'n rhan o bartneriaeth sifil. Dylech barhau i hawlio ar y cyd fel cwpl hyd yn oed os ydych yn byw ar wahân dros dro.
Er enghraifft, os oes un ohonoch yn gweithio i ffwrdd.

Os nad oes partner gennych, dylech wneud hawliad fel person sengl ar sail eich amgylchiadau. Os ydych wedi gwahanu'n gyfreithiol neu'ch bod yn debygol o fod wedi gwahanu'n barhaol, dylech wneud hawliad sengl. Er enghraifft, rydych yn y broses o ysgaru.

### Sut y caiff credydau treth eu talu

Caiff credydau treth eu talu yn uniongyrchol i gyfrif banc neu i gymdeithas adeiladu.

## 2 Credyd Treth Plant

### Credyd Treth Plant

I roi gwybod am newid, ewch i www.gov.uk/newidiadau-effeithio-credydau-treth

> Mae credydau treth wedi cael eu disodli gan Gredyd Cynhwysol.
> Gallwch ond gwneud hawliad am Gredyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith os ydych eisoes yn cael credydau treth. Bydd angen i chi ddiweddaru'ch hawliad presennol am gredydau treth drwy roi gwybod am newid yn eich amgylchiadau ar-lein neu'n ysgrifenedig.

Gall fod yr hawl gennych i gael Credyd Treth Plant ar gyfer person ifanc 16, 17, 18 neu 19 oed sydd mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch.Fel arfer, darperir addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch mewn ysgol neu goleg, ond gall hefyd gynnwys addysg a ddarperir yn yr aelwyd, os oedd y plentyn yn cael yr addysg honno cyn ei ben-blwydd yn 16 oed, a chymeradwywyd yr addysg yn flaenorol, neu os yw'r plentyn yn dechrau addysg yn yr aelwyd ar ôl ei ben-blwydd yn 16 oed mae'n rhaid iddo fod wedi'i asesu gan awdurdod lleol fel unigolyn ag anghenion addysgol arbennig. Yn yr achos hwn, mae 'amser llawn' yn golygu bod y plentyn yn treilio cyfartaledd o dros 12 awr o astudio dan orcuchwyliaeth yr wythnos yn ystod y tymor, a hynny heb gynnwys seibiannau ar gyfer prydau bwyd neu waith cartref.

Mae Credyd Treth Plant yn daliad er mwyn helpu teuluoedd â phlant. Gallwch ei hawlio os ydych chi, neu eich partner, yn cael Credyd Treth Gwaith ac yn gyfrifol am o leiaf un plentyn neu berson ifanc cymwys sydd fel arfer yn byw gyda chi. Does dim rhaid i chi fod yn gweithio i hawlio. Os yw'r plentyn neu'r person ifanc cymwys yn byw gyda theulu arall am ran o'r amser, dylech chi a'r teulu hwnnw benderfynu ar y cyd pwy sydd am hawlio. Os yw'r ddau ohonoch wedi hawlio Credyd Treth Plant ar gyfer yr un plentyn neu berson ifanc cymwys ond nad ydych yn gallu cytuno pwy ddylai gael credydau treth ar ei gyfer, byddwn ni'n penderfynu pa un ohonoch sydd â'r prif gyfrifoldeb. Byddwn wedyn yn talu'r credydau treth i'r person hwnnw.

Mae penderfynu pwy sydd â'r prif gyfrifoldeb yn dibynnu ar ffeithiau megis nifer y diwrnodau y maent yn byw gyda chi. Ond nid dyna'r unig ffactor i'w ystyried. Os nad ydych yn siŵr am beth i chwilio, gallwch ffonio ein llinell gymorth am gyngor.

Os bydd teulu arall yn hawlio am yr un plentyn neu berson ifanc cymwys, efallai y gofynnir i chi roi manylion ynghylch pam y credwch fod y prif gyfrifoldeb gennych ar ei gyfer. Byddwn yn ystyried y rhain, ynghyd â'r manylion a ddarparwyd gan y person arall. Os na allwch gytuno ymhlith eich gilydd pwy ddylai hawlio byddwn ni'n penderfynu pwy sydd â'r prif gyfrifoldeb ar ei gyfer.

Os nad ydych yn cytuno gyda'n penderfyniad gallwch ofyn i ni fwrw golwg arall drosto. Rydym yn galw hyn yn 'ailystyriaeth orfodol'. Mae ein taflen WTC/AP 'Beth i'w wneud os credwch fod eich Credyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith yn anghywir' yn cynnwys rhagor o wybodaeth am hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am ailystyriaeth orfodol, ewch i GOV.UK a chwilio am WTC/AP.

Fel arfer gallwch gael Credyd Treth Plant ar gyfer plentyn sy'n byw gyda chi hyd at 31 Awst ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 16 oed. Ar ôl hyn gallwch ei hawlio o hyd ar gyfer person ifanc cymwys, cyhyd â bod y person ifanc o dan 20 oed. Mae hyn ar yr amod ei fod wedi cofrestru, cael ei dderbyn neu wedi dechrau addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch, neu hyfforddiant cymeradwy cyn cyrraedd 19 oed.

Os yw'r person ifanc cymwys yn 16 neu'n 17 oed, ac mae wedi gadael addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy, efallai y gallwch gael Credyd Treth Plant ar ei gyfer am hyd at 20 wythnos ar ôl iddo adael. I fod yn gymwys mae'n rhaid iddo fod wedi cofrestru gydag un o'r canlynol:

- gwasanaeth gyrfaoedd, Connexions, gwasanaeth cefnogi awdurdod lleol neu sefydliad tebyg (y Department for Communities neu'r Awdurdod Addysg yng Ngogledd Iwerddon)
- y Weinyddiaeth Amddiffyn, os yw'n aros i ymuno â'r Lluoedd Arfog
- unrhyw gorff cyfatebol yn un o aelod-wladwriaethau'r UE

Mae'n rhaid i chi hawlio cyn pen 3 mis o'ch plentyn yn gadael addysg neu hyfforddiant.

Ni allwch gael Credyd Treth Plant ar gyfer plentyn neu berson ifanc cymwys os yw un o'r canlynol yn gymwys:

- mae'n 16 oed neu'n hŷn ac yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Gredyd Cynhwysol ei hun
- mae'n 16 oed neu'n hŷn ac wedi gadael addysg amser llawn heb fod yn addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy, wedi rhoi'r gorau i fod wedi cofrestru gyda chorff cymwys, ac yna wedi dechrau gweithio am gyflog am 24 awr neu fwy yr wythnos
- mae yn y carchar am ddedfryd sy'n hwy na 4 mis a osodwyd gan lys

Mae rheolau arbennig yn gymwys pan roddir plant yn eich gofal gan yr awdurdod lleol ac rydych yn cael arian cyhoeddus i ofalu amdanynt. I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900. Dylech hefyd ffonio'r gwasanaeth hwn os oes plentyn neu berson ifanc cymwys wedi dod o dramor ac yn aros gyda chi at ddibenion addysgol.

## Beth mae Credyd Treth Plant yn ei gynnwys

Mae Credydau Treth Plant yn cynnwys sawl elfen. Rhestrir y gwerth ar gyfer pob un isod ond mae'r swm a gewch yn dibynnu ar eich incwm.

| Elfen | Y swm blynyddol ar gyfer 2024 i 2025 (£) |
|---|---|
| **Yr elfen deuluol (un i bob teulu)** | 545 |
| **Yr elfen plentyn (a delir ar gyfer pob plentyn neu berson ifanc cymwys)** | 3,455 |
| **Elfen anabledd Credyd Treth Plant, pan fo'r plentyn neu'r person ifanc cymwys yn anabl (a delir yn ychwanegol i'r elfen plentyn)** | 4,170 |
| **Elfen anabledd Credyd Treth Plant, pan fo'r plentyn neu'r person ifanc cymwys ag anabledd difrifol1 (a delir yn ychwanegol i'r elfen plentyn)** | 5,850 |

[1] A ddangosir fel 2 elfen ar wahân ar eich Hysbysiad o ddyfarniad - Elfen Anabledd gwerth £4,170 ac Elfen Anabledd Difrifol gwerth £1,680, sy'n dod i gyfanswm o £5,850.

Yn Lloegr, gall addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch ddigwydd rhywle ar wahân i ysgol. Yn yr achos hwn, byddai amser llawn yn cynnwys rhaglen astudio sy'n cael ei darparu i berson am o leiaf 540 o oriau yn ystod unrhyw gyfnod o 12 mis. Gall hefyd gynnwys hyfforddeiaeth, rhaglen astudio gywasgedig yn Lloegr a allai bara rhwng 6 wythnos a 6 mis.

Nid ydym yn golygu cyrsiau neu addysg a ddarperir gan gyflogwr neu fel rhan o gytundeb cyflogaeth.

Enghreifftiau o addysg amser llawn heb fod yn addysg uwch:

- TGAU, Lefel A a chymwysterau academaidd cyffredinol eraill o safon debyg, er enghraifft *iGCSEs, Pre-U a'r Fagloriaeth Ryngwladol*
- NVQ lefel 1, 2 neu 3
- Diploma Cenedlaethol, Tystysgrif Genedlaethol a Diploma 1af BTEC
- *National 4 a 5* (Yr Alban)
- SVQ lefel 1, 2 neu 3
- *Scottish Group Awards*

### Hyfforddiant cymeradwy

Gall fod gennych yr hawl i Gredyd Treth Plant ar gyfer person ifanc sy'n 16,17,18 neu 19 oed sydd mewn hyfforddiant cymeradwy na ddarperir gan gytundeb o gyflogaeth. Mae hyfforddiant cymeradwy yn cynnwys y canlynol:

- Yng Nghymru - Prentisiaethau Sylfaenol neu Hyfforddeiaethau
- Yn yr Alban - The Employability Fund a '*No One Left Behind*'
- Yng Ngogledd Iwerddon – Training for *Success neu Skills for Life and Work in Northern Ireland.*

Efallai y cewch y gyfradd anabl o'r elfen anabledd gwerth £4,170 ar gyfer pob plentyn neu berson ifanc cymwys rydych yn gyfrifol amdano os:
- mae Lwfans Byw i'r Anabl/Taliad Anabledd Plant neu Daliad Annibyniaeth Personol/Taliad Anabledd Oedolion yn cael ei dalu ar ei gyfer, neu byddai'n daladwy, pe na bai'r plentyn neu berson ifanc yn yr ysbyty
- ardystiwyd bod gan y plentyn neu'r person ifanc cymwys nam difrifol ar ei olwg, neu'i fod yn ddall, gan offthalmolegydd ymgynghorol
- nad yw'r plentyn bellach wedi'i ardystio fel rhywun â nam difrifol ar ei olwg, neu'n ddall, gan offthalmolegydd ymgynghorol yn ystod y 28 wythnos cyn dyddiad eich hawliad neu ddyddiad eich adnewyddiad

Efallai y cewch y gyfradd anabledd difrifol o'r elfen anabledd gwerth £5,850 ar gyfer pob plentyn neu berson ifanc cymwys rydych yn gyfrifol amdano, pe telir un o'r canlynol iddo:
- Lwfans Byw i'r Anabl/Taliad Anabledd Plant (cydran ofal cyfradd uwch), neu Gymorth Anabledd (cydran ofal cyfradd uwch) neu a fyddai'n daladwy pe na bai'r budd-dal wedi'i ohirio neu pe na bai'r plentyn neu berson ifanc cymwys yn yr ysbyty
- elfen bywyd bob dydd ychwanegol o Daliad Annibyniaeth Personol/Taliad Anabledd Oedolion neu a fyddai'n daladwy pe na bai'r plentyn neu berson ifanc cymwys yn yr ysbyty
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog

### Talu

Telir Credyd Treth Plant yn uniongyrchol i brif ofalwr yr holl blant yn y teulu. Os ydych yn rhan o gwpl, bydd angen i chi roi gwybod i ni pa un ohonoch yw'r prif ofalwr. Os ydych yn rhiant sengl, caiff hwn ei dalu yn uniongyrchol i chi. Gallwch ddewis i gael taliadau yn wythnosol neu bob 4 wythnos.

Fel arfer gwneir y taliadau i gyfrif banc neu i gymdeithas adeiladu.

Telir Credyd Treth Plant yn ychwanegol i Fudd-dal Plant.

### Os ydych yn cael budd-dal arall

Mae gennych hawl i gael uchafswm y Credyd Treth Plant ar gyfer eich plant os ydych yn cael:
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm
- Credyd Pensiwn

## 3 Credyd Treth Gwaith

I roi gwybod am newid, ewch i www.gov.uk/newidiadau-effeithio-credydau-treth

> Mae credydau treth wedi cael eu disodli gan Gredyd Cynhwysol. Gallwch ond gwneud hawliad am Gredyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith os ydych eisoes yn cael credydau treth. Bydd angen i chi ddiweddaru'ch hawliad presennol am gredydau treth drwy roi gwybod am newid yn eich amgylchiadau ar-lein neu'n ysgrifenedig.

Mae Credyd Treth Gwaith ar gyfer pobl sy'n gweithio ac ar incwm isel. Gallwch fod wedi'ch cyflogi neu'n hunangyflogedig, a does dim rhaid bod gennych blant i hawlio. Ym mhob achos rhaid eich bod naill ai:
- yn gweithio (p'un ai mewn cyflogaeth neu hunangyflogaeth) pan fyddwch yn gwneud eich hawliad
- yn dechrau gweithio am gyflog cyn pen 7 diwrnod o wneud eich hawliad

Mae'n bosibl y cewch fwy os oes gennych anabledd neu os ydych yn gyfrifol am blant ac mae gennych gostau gofal plant.

Telir Credyd Treth Gwaith yn uniongyrchol i'r person sy'n gweithio.

Telir elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith yn uniongyrchol i brif ofalwr y plentyn neu'r plant ynghyd â Chredyd Treth Plant.

## Beth mae Credyd Treth Gwaith yn ei gynnwys

Mae Credyd Treth Gwaith yn cynnwys sawl elfen gan gynnwys symiau ychwanegol ar gyfer:

- pobl mewn gwaith sydd ag anabledd
- pobl ag anabledd difrifol
- costau gofal plant cofrestredig neu gymeradwy

Rhestrir uchafswm gwerth pob elfen isod, ond mae'r swm a gewch yn dibynnu ar eich incwm.

| Elfen | Y swm blynyddol ar gyfer 2024 i 2025 (£) |
|---|---|
| Elfen sylfaenol (un i bob person sengl neu gwpl) | 2,435 |
| Yr elfen ar gyfer cwpl2 (a delir yn ychwanegol i'r elfen sylfaenol ond caniateir un elfen cwpl yn unig i bob cwpl) | 2,500 |
| Yr elfen ar gyfer rhiant sengl (a delir yn ychwanegol i'r elfen sylfaenol ar gyfer cwsmeriaid sengl sy'n gyfrifol am blentyn neu berson ifanc cymwys) | 2,500 |
| Yr elfen 30 awr3 (a delir yn ychwanegol i elfennau eraill ond dim ond elfen 30 awr a ganiateir i bob cwpl) | 1,015 |
| Yr elfen gweithiwr anabl1 (a delir yn ychwanegol i elfennau eraill) | 3,935 |
| Yr elfen anabledd difrifol1 (a delir yn ychwanegol i elfennau eraill) | 1,705 |
| Yr elfen gofal plant, uchafswm y gost gymwys ar gyfer teuluoedd sy'n talu gofal plant am un plentyn | 175 a week |
| Yr elfen gofal plant, uchafswm y gost gymwys ar gyfer teuluoedd gyda gofal plant ar gyfer 2 neu fwy o blant | 300 a week |
| Canran y costau gofal plant cymwys a gwmpesir | 70% |

Nodiadau

[1] Os yw'r cais yn hawliad ar y cyd a bod gan y ddau ohonoch hawl i gael unrhyw un o'r elfennau hyn, bydd y dyfarniad yn cynnwys 2 elfen i bob cwpl.

[2] Os ydych yn rhan o gwpl, ac mae un ohonoch yn destun rheolaeth fewnfudo, ac nid ydych yn hawlio ar gyfer plant, ni fyddwch fel arfer yn gallu cael yr elfen ar gyfer cwpl. Ond mae'n dal i fod angen i chi wneud hawliad ar y cyd.

[3] Mae'r elfen 30 awr ar gael i'r rheiny sy'n gweithio 30 awr neu fwy yr wythnos.

## Oriau gwaith

Fel arfer mae angen i chi weithio lleiafrif o oriau yr wythnos i hawlio Credyd Treth Gwaith.

Os ydych yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc cymwys ac nid ydych yn rhan o gwpl, gallwch hawlio Credyd Treth Gwaith os ydych:

- yn 16 oed neu'n hŷn
- yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos

Gweler hefyd dudalennau 11 i 13 ynglŷn â'r elfennau anabledd.

Os ydych yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc cymwys ac rydych yn rhan o gwpl, gallwch hawlio Credyd Treth Gwaith os yw'r ddau ohonoch yn 16 oed neu'n hŷn ac:

- rydych yn gweithio o leiaf 24 awr yr wythnos rhyngoch, gydag un partner yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos
- mae un partner yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos ac yn gymwys ar gyfer elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith
- mae un partner yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos ac yn 60 oed neu'n hŷn
- mae un partner yn gweithio o leiaf 16 awr ac ni all y partner arall weithio oherwydd mae
  - yn analluog (yn cael budd-daliadau penodol oherwydd anabledd neu salwch)
  - yn glaf mewnol yn yr ysbyty
  - yn y carchar naill ai yn cael ei gadw yn y ddalfa neu'n bwrw dedfryd o garchar
  - yn gymwys ar gyfer Lwfans Gofalwr neu Daliad Cymorth Gofalwr

Os nad ydych yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc cymwys gallwch hawlio Credyd Treth Gwaith os ydych chi neu'ch partner:

- yn 25 oed neu'n hŷn ac yn gweithio o leiaf 30 awr yr wythnos
- yn 16 oed neu'n hŷn, yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos ac yn gymwys ar gyfer elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith
- dros 60 oed ac yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos

Os ydych yn rhan o gwpl â phlant, rydych yn gymwys i gael yr elfen 30 awr os ydych yn gweithio ar y cyd am o leiaf 30 awr yr wythnos. Mae hyn ar yr amod bod un ohonoch yn gweithio o leiaf 16 awr. Ni all cyplau heb blant ychwanegu eu horiau at ei gilydd er mwyn bod yn gymwys am yr elfen 30 awr.

Rhaid i chi ddisgwyl i'r gwaith:

- barhau am o leiaf 4 wythnos ar ôl i chi wneud yr hawliad
- fod yn waith taledig, er enghraifft, nid yw gweithio fel gwirfoddolwr fel arfer yn cyfrif

Gallwch barhau i hawlio Credyd Treth Gwaith o hyd os ydych yn gweithio mewn ysgol neu goleg ac nid ydych yn gweithio yn ystod gwyliau'r ysgol neu'r coleg.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i gyfrifo'ch oriau, ewch i www.gov.uk/claim-tax-credits/working-hours

Os ydych yn hunangyflogedig, ewch i GOV.UK a chwilio am CCM6755.

Os ydych yn ofalwr maeth, mae'n bosibl y bydd yr oriau yr ydych yn eu gweithio fel gofalwr maeth yn cyfrif tuag at gredydau treth os ydych yn cael eich talu gan eich awdurdod lleol. Os taw gofal maeth yw'ch prif ffynhonnell o incwm neu'ch prif swydd, mae'n bosibl y gallwch gael Credyd Treth Gwaith.

## Cyfyngiadau i hawliad

Efallai na fydd modd i chi gael Credyd Treth Gwaith, os ydych:

- yn cael eich cyflogi gan sefydliad elusennol, neu os ydych yn wirfoddolwr ac yn cael taliadau am dreuliau yn unig
- yn gweithio i awdurdod lleol, awdurdod iechyd, sefydliad elusennol neu wirfoddol sy'n gofalu am rywun nad yw'n aelod o'ch aelwyd, ac mae'r unig taliad rydych yn ei gael yn dod o gynllun Rhentu Ystafell
- yn cael eich cyflogi ar gynllun lle telir lwfans hyfforddi oni bai bod y lwfans hyfforddi yn agored i dreth fel rhan o'ch incwm o gyflogaeth neu hunangyflogaeth
- yn cymryd rhan yn y cyfnod o Weithgaredd Dwys neu'r rhaglen Paratoi ar gyfer Gweithio, oni bai bod y taliadau yr ydych yn eu cael yn agored i dreth fel rhan o'ch incwm o gyflogaeth neu hunangyflogaeth

- yn ymwneud â gweithgaredd pan fo gwobr chwaraeon wedi ei rhoi
- yn cymryd rhan mewn rhaglen Parth Cyflogaeth oni bai eich bod dim ond yn cael taliadau dewisol neu bremiwm hyfforddiant a anwybyddir
- yn cael eich cyflogi tra'ch bod yn cwblhau dedfryd o garchar neu'n cael eich cadw yn y ddalfa
- yn fyfyriwr sydd dim ond yn gweithio fel rhan o'ch cwrs, gan fod unrhyw grant neu fenthyciad a gewch ar gyfer cynnal a chadw, ac nid ydynt yn cael eu hystyried fel taliad am waith
- yn fyfyriwr nyrsio, gan nad yw Bwrsari'r GIG a grantiau neu fenthyciadau eraill a gewch yn cael eu hystyried fel taliad am waith

## Absenoldeb mamolaeth

Mae'r rhan fwyaf o ferched yn cael Tâl Mamolaeth Statudol (SMP) neu Lwfans Mamolaeth (MA) ar gyfer:

- y 26 wythnos gyntaf o absenoldeb mamolaeth cyffredin
- y 13 wythnos gyntaf o absenoldeb mamolaeth ychwanegol

Gellir dilyn hyn gan hyd at 13 wythnos o absenoldeb di-dâl.

P'un ai'ch bod yn cael SMP neu MA ai peidio, am y 26 wythnos o absenoldeb mamolaeth cyffredin ac am y 13 wythnos gyntaf o absenoldeb mamolaeth ychwanegol, hynny yw am gyfnod o 39 wythnos yn gyfan gwbl, cewch eich trin fel petaech yn gweithio ac yn gallu hawlio Credyd Treth Gwaith. Mae hyn ar yr amod eich bod chi a'ch partner wedi gweithio'r nifer ofynnol o oriau sy'n berthnasol i'ch amgylchiadau yn union cyn mynd ar absenoldeb mamolaeth. Mae hyn hefyd yn berthnasol os ydych yn hunangyflogedig.

Pan fydd y 39 wythnos gyntaf drosodd byddwch yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer Credyd Treth Gwaith os dechreuwch weithio unwaith eto o'r adeg honno. Ni fydd absenoldeb mamolaeth ychwanegol pellach yn cyfrif fel bod yn y gwaith. Rhaid i chi roi gwybod i ni cyn pen un mis os na fyddwch yn dychwelyd i'r gwaith ar ôl y 39 wythnos.

## Absenoldeb mabwysiadu neu dadolaeth

Os ydych yn mabwysiadu plentyn gallech fod yn gymwys i gael Tâl Mabwysiadu Statudol (SAP) ar gyfer:

- 26 wythnos gyntaf o absenoldeb mabwysiadu cyffredin
- 13 wythnos gyntaf o absenoldeb mabwysiadu ychwanegol

Gallai rhieni newydd fod yn gymwys i gael 2 wythnos o absenoldeb tadolaeth cyffredin a chael Tâl Tadolaeth Statudol Cyffredin (OSPP) ar gyfer y 2 wythnos hynny. Gall rhieni newydd fod yn gymwys i gael hyd at 26 wythnos o absenoldeb tadolaeth ychwanegol a chael Tâl Tadolaeth Statudol Ychwanegol (ASPP) os yw'ch partner wedi dychwelyd i'r gwaith.

Os ydych ar absenoldeb mabwysiadu cyffredin, absenoldeb tadolaeth cyffredin neu ychwanegol, neu ar y 13 wythnos gyntaf o absenoldeb mabwysiadu ychwanegol, p'un ai'ch bod yn cael SAP, OSPP neu ASPP, byddwch yn dal i gael eich ystyried fel petaech yn gweithio ac yn gallu hawlio Credyd Treth Gwaith os ydych eisoes yn cael Credyd Treth Plant. Mae hyn ar yr amod eich bod chi a'ch partner wedi gweithio'r nifer ofynnol o oriau sy'n berthnasol i'ch amgylchiadau yn union cyn i'ch absenoldeb mabwysiadu neu dadolaeth gychwyn. Mae hyn hefyd yn berthnasol os ydych yn hunangyflogedig (darllenwch 'Oriau gwaith' ar dudalennau 7 ac 8).

## Absenoldeb ar y Cyd i Rieni

Mae'n bosibl y bydd gennych yr hawl i Absenoldeb ar y Cyd i Rieni (SPL) a Thâl Statudol ar y Cyd i Rieni (ShPP) os:

- ganwyd eich baban ar neu ar ôl 5 Ebrill 2015
- gwnaethoch fabwysiadu plentyn ar neu ar ôl 5 Ebrill 2015

Gallwch ddechrau SPL os ydych yn gymwys a'ch bod chi neu'ch partner yn gorffen eich absenoldeb neu dâl mamolaeth neu fabwysiadu'n gynnar. Bydd yr absenoldeb sy'n weddill ar gael fel SPL. Mae'n bosibl y bydd y tâl sy'n weddill ar gael fel ShPP.

Gallwch gymryd SPL ar draws hyd at 3 bloc ar wahân. Gallwch rannu'r absenoldeb gyda'ch partner hefyd, os yw'n gymwys hefyd. Gall rhieni ddewis faint o'r SPL fyddant yn ei gymryd yr un.

Rhaid i SPL a ShPP gael ei gymryd rhwng genedigaeth y babi a'i ben-blwydd cyntaf (neu cyn pen 1 flwyddyn o fabwysiadu). Mae SPL a ShPP ond ar gael yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Os ydych yn gymwys a'ch bod chi neu'ch partner yn dod â'ch absenoldeb â'ch tâl mamolaeth neu fabwysiadu (neu Lwfans Mamolaeth) i ben yn gynnar, yna gallwch gymryd gweddill y:

- 52 wythnos o absenoldeb (hyd at uchafswm o 50 wythnos) fel SPL
- 39 wythnos o dâl (hyd at uchafswm o 37 wythnos) fel ShPP

Rhaid i fam gymryd isafswm o 2 wythnos o absenoldeb mamolaeth yn dilyn yr enedigaeth (4 os yw'n gweithio mewn ffatri).

Ar gyfer unrhyw gyfnod yr ydych chi neu'ch partner yn cael ShPP, rydych yn dal i gael eich trin fel petaech yn gweithio ac yn gallu hawlio Credyd Treth Gwaith. Mae hyn ar yr amod eich bod chi a'ch partner, wedi gweithio'r nifer ofynnol o oriau sy'n berthnasol i'ch amgylchiadau yn union cyn mynd ar SPL. Mae hyn hefyd yn berthnasol os ydych yn hunangyflogedig.

Pan fydd eich amser ar SPL drosodd, byddwch yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer Credyd Treth Gwaith os ydych yn dechrau gweithio eto ar yr adeg honno. Nid yw absenoldeb pellach yn cyfrif fel petaech yn gweithio. Rhaid i chi roi gwybod i ni cyn pen un mis os na fyddwch yn dychwelyd i'r gwaith ar ôl yr adeg hon.

## Absenoldeb Rhieni mewn Profedigaeth

Os ydych wedi colli plentyn o dan 18 oed, efallai y byddwch yn gymwys i gael 2 wythnos o Absenoldeb Rhieni mewn Profedigaeth ac efallai y telir Tâl Statudol Rhieni mewn Profedigaeth (SPBP) i chi ar gyfer y 2 wythnos hynny.

Os ydych ar absenoldeb rhieni mewn profedigaeth, byddwch yn cael eich ystyried o hyd fel petaech yn y gwaith a gallwch hawlio Credyd Treth Gwaith. Mae hyn ar yr amod eich bod chi a'ch partner wedi gweithio'r nifer ofynnol o oriau sy'n berthnasol i'ch amgylchiadau yn union cyn mynd ar absenoldeb rhieni mewn profedigaeth. Mae hyn hefyd yn berthnasol os ydych yn hunangyflogedig.

## Absenoldeb salwch

Byddwch yn cael eich ystyried o hyd fel petaech yn y gwaith, a gallwch hawlio Credyd Treth Gwaith os yw'r canlynol yn berthnasol:

- rydych yn cael Tâl Salwch Statudol (SSP) neu Fudd-dal Analluogrwydd byrdymor ar y gyfradd is
- rydych yn absennol o'r gwaith am hyd at 28 wythnos oherwydd salwch ac yn derbyn naill ai:
  - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
  - Cymhorthdal Incwm a delir ar sail analluogrwydd i weithio
  - credydau Yswiriant Gwladol ar sail analluogrwydd i weithio neu allu cyfyngedig i weithio

Mae hyn ar yr amod eich bod chi a'ch partner wedi gweithio'r nifer ofynnol o oriau sy'n berthnasol i'ch amgylchiadau yn syth cyn i chi ddechrau cael unrhyw un o'r budd-daliadau hyn. Mae hyn hefyd yn berthnasol os ydych yn hunangyflogedig (darllenwch 'Oriau gwaith' ar dudalennau 7 ac 8).

Pan fo'r 28 wythnos drosodd rydych yn parhau i fod yn gymwys i gael Credyd Treth Gwaith os byddwch yn dechrau gweithio eto ar yr adeg honno. Ni fydd unrhyw gyfnodau pellach o fwy na 28 wythnos yn cyfrif fel petaech yn gweithio. Rhaid i chi roi gwybod i ni cyn pen un mis os na fyddwch yn dychwelyd i'r gwaith ar ôl y 28 wythnos.

## Yr elfen anabledd

Os ydych yn bodloni pob un o'r 3 amod canlynol, efallai y gallech gael yr elfen anabledd o Gredyd Treth Gwaith. Os ydych yn hawlio fel cwpl ac mae'ch partner yn bodloni'r 3 amod hefyd, efallai y gallech gael 2 elfen anabledd.

Amod 1: Rydych fel arfer yn gweithio am 16 awr neu fwy yr wythnos.

Amod 2: Mae gennych anabledd sy'n golygu eich bod dan anfantais o ran cael swydd.

Mae manylion yr anableddau sy'n cael eu hystyried ar gyfer bodloni'r amod hwn yn ymwneud ag ystod eang o bethau, er enghraifft:

- gweld
- clywed
- cyfathrebu â phobl
- mynd o le i le
- defnyddio eich dwylo
- ymestyn â'ch breichiau
- anableddau meddyliol
- blinder a phoen

Efallai y gofynnwn i chi roi enw gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a all gadarnhau sut mae'ch anabledd yn effeithio arnoch. Er enghraifft, meddyg, nyrs ardal neu nyrs gymenudol, neu therapydd galwedigaethol.

Amod 3: Ar hyn o bryd rydych yn cael, neu buoch yn cael, budd-dal cymwys mewn perthynas â salwch neu anabledd.

Byddwch yn bodloni'r amod hwn os oes o leiaf un o'r 4 disgrifiad canlynol yn berthnasol i chi:

1 Rydych yn cael un o'r budd-daliadau cymwys canlynol:
  - Lwfans Gweini/Taliad Anabledd Oedran Pensiwn
  - Lwfans Byw i'r Anabl/Taliad Annibyniaeth Personol/Taliad Anabledd Oedolion neu Daliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog
  - Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol (gyda Lwfans Gweini Cyson ar eich cyfer)
  - cerbyd a ddarparwyd o dan y Cynllun Motability
  - Pensiwn Rhyfel (gyda Lwfans Gweini Cyson neu Atodiad Symudedd ar eich cyfer chi)

Does dim rhaid i'r 28 wythnos fod yn un cyfnod di-dor. Gallwch ychwanegu at ei gilydd unrhyw gyfnodau pan gawsoch:

- ESA, cyn belled nad oeddent yn fwy na 12 wythnos ar wahân
- SSP, cyn belled nad oeddent yn fwy nag 8 wythnos ar wahân
- SSP gyda'r cyfnodau pan oeddech yn cael ESA, ar yr amod nad oeddent fwy na 12 wythnos ar wahân

2 Rydych wedi cael budd-dal salwch neu fudd-dal anabledd am o leiaf un diwrnod yn ystod y 6 mis diwethaf. Y budd-daliadau sy'n cyfrif yw:

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) pan rydych wedi cael y lwfans hwn am 28 wythnos neu fwy neu cawsoch Dâl Salwch Statudol (SSP) wedi'i ddilyn gan ESA am gyfnod cyfunol o 28 wythnos neu fwy
- Budd-dal Analluogrwydd ar y gyfradd uwch fyrdymor neu'r gyfradd hirdymor
- Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm*
- Cymhorthdal Incwm*
- Budd-dal Tai*
- Lwfans Anabledd Difrifol

*Rhaid i hwn gynnwys Premiwm Anabledd neu Bremiwm Uwch i Bensiynwyr ar eich cyfer chi.

3 Rydych wedi bod yn 'hyfforddi ar gyfer gwaith' am o leiaf un diwrnod yn yr 8 wythnos diwethaf.
Rydych wedi bod yn 'hyfforddi ar gyfer gwaith' am o leiaf un diwrnod yn yr 8 wythnos diwethaf.

Does dim rhaid i'r 28 wythnos fod yn un cyfnod di-dor. Gallwch ychwanegu at ei gilydd unrhyw gyfnodau pan gawsoch:

- ESA yn seiliedig ar gyfraniadau, cyn belled nad oeddent yn fwy na 12 wythnos ar wahân
- SSP, cyn belled nad oeddent yn fwy nag 8 wythnos ar wahân
- SSP, gyda chyfnodau pan gawsoch ESA yn seiliedig ar gyfraniadau, cyn belled nad oeddent yn fwy na 12 wythnos ar wahân a gwnaethoch fodloni'r amodau ar gyfer ESA yn seiliedig ar gyfraniadau ar y diwrnodau y cawsoch SSP

Mae 'hyfforddi ar gyfer gwaith' yn golygu mynychu hyfforddiant sy'n cael ei redeg gan y llywodraeth, er enghraifft hyfforddiant a ddarperir gan *'the Work Programme'* yn y DU, Dysgu Seiliedig ar Waith i Oedolion yng Nghymru, '*Training for Work*' yn yr Alban neu gwrs yr oeddech yn ei fynychu am 16 awr neu fwy yr wythnos er mwyn dysgu sgil ar gyfer swydd neu alwedigaeth.

Yn yr 8 wythnos cyn i chi ddechrau hyfforddi ar gyfer gwaith mae'n rhaid eich bod wedi cael:

- Budd-dal Analluogrwydd a dalwyd ar y gyfradd uwch fyrdymor neu'r gyfradd hirdymor
- Lwfans Anabledd Difrifol
- ESA ar sail cyfraniadau am 28 wythnos neu fwy
- SSP wedi'i ddilyn gan ESA ar sail cyfraniadau am gyfnod cyfunol o 28 wythnos neu fwy

Byddwch hefyd yn bodloni amod 3 os oedd gennych hawl i elfen anabledd Credyd Treth Gwaith yn yr 8 wythnos diwethaf oherwydd eich bod wedi bodloni amod 2, 3 neu 4.

4 Mae pob un o'r 4 pwynt canlynol (4.1 i 4.4) yn berthnasol i chi.

4.1 Buoch yn cael o leiaf un o'r budd-daliadau ym mlwch A neu flwch B am 20 wythnos neu fwy, a chawsoch y budd-dal hwn yn ystod yr 8 wythnos diwethaf.

Does dim rhaid i'r 20 wythnos fod yn un cyfnod di-dor. Gallwch adio at ei gilydd unrhyw gyfnodau ar wahân pan gawsoch fudd-daliadau neu gredydau ym:
- mlwch A, cyn belled nad oeddent fwy nag 8 wythnos ar wahân
- mlwch B, cyn belled nad oeddent fwy na 12 wythnos ar wahân

**A**
- Tâl Salwch Statudol
- Tâl Salwch Galwedigaethol
- Budd-dal Analluogrwydd a delir ar y gyfradd is fyrdymor
- Cymhorthdal Incwm a delir oherwydd analluogrwydd i weithio
- Credydau Yswiriant Gwladol a ddyfernir oherwydd analluogrwydd i weithio

**B**
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Credydau Yswiriant Gwladol a ddyfarnwyd ar sail gallu cyfyngedig i weithio

4.2 Mae'ch anabledd yn debygol o barhau am o leiaf 6 mis neu am weddill eich oes.

4.3 Mae'ch enillion gros (cyn didynnu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol) o leiaf 20% yn llai na'r hyn oeddent cyn i chi gael yr anabledd.

4.4 Mae'ch enillion gros (cyn didynnu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol) o leiaf £15 yr wythnos yn llai na'r hyn oeddent cyn i chi gael yr anabledd.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i GOV.UK a chwilio am TC956.

## Yr elfen anabledd difrifol

Gallwch chi neu'ch partner (os ydych yn hawlio fel cwpl) hawlio'r elfen anabledd difrifol os ydych yn cael:
- Lwfans Byw i'r Anabl (cyfradd uchaf yr elfen gofal)
- Elfen Bywyd Bob Dydd Ychwanegol o Daliad Annibyniaeth Personol
- Taliad Anabledd Oedolion
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog
- Lwfans Gweini/Taliad Anabledd Oedran Pensiwn (y gyfradd uwch).

Nid oes yn rhaid i chi fod yn gweithio i fod yn gymwys i gael yr elfen anabledd difrifol ar yr amod bod eich partner yn gweithio. Os yw'r ddau ohonoch yn gymwys, cewch 2 elfen anabledd difrifol.

## Help gyda chostau gofal plant

Efallai y gallwch gael mwy o Gredyd Treth Gwaith i'ch helpu gyda chostau gofal plant cofrestredig neu gymeradwy. Dyma elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith. Gall yr elfen gofal plant helpu i dalu hyd at 70% o'ch costau gofal plant hyd at uchafswm o £175 yr wythnos am un plentyn a £300 yr wythnos am 2 blentyn neu fwy. Mae hyn yn golygu bod yr elfen gofal plant yn werth hyd at:

- £122.50 yr wythnos (70% o £175) ar gyfer teuluoedd ag un plentyn
- £210.00 yr wythnos (70% o £300) ar gyfer teuluoedd gyda 2 neu fwy o blant

Bydd y swm a gewch yn dibynnu ar eich incwm a chaiff ei dalu yn uniongyrchol i'r prif ofalwr ynghyd â Chredyd Treth Plant.

I hawlio'r elfen gofal plant rhaid i chi fod yn 16 oed neu'n hŷn.

Os ydych yn rhiant sengl, rhaid i chi weithio o leiaf 16 awr yr wythnos neu fwy.

Os ydych yn gwpl rhaid i'r ddau ohonoch weithio o leiaf 16 awr yr wythnos neu fwy. Dim ond un partner sydd angen gweithio 16 awr yr wythnos neu fwy os yw'r llall:

- yn analluog
- yn glaf mewnol yn yr ysbyty
- yn y carchar naill ai yn cael ei gadw yn y ddalfa neu'n bwrw dedfryd o garchar
- yn gymwys ar gyfer Lwfans Gofalwr neu Daliad Cymorth Gofalwr

Cewch eich trin fel petaech yn analluog os cewch un o'r canlynol:

- Lwfans Byw i'r Anabl, Taliad Annibyniaeth Personol, Taliad Anabledd Oedolion, Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog neu Lwfans Gweini/Taliad Anabledd Oedran Pensiwn
- Lwfans Gweini
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Budd-dal Analluogrwydd ar y gyfradd uwch fyrdymor neu'r gyfradd hirdymor
- Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol (gyda Lwfans Gweini Cyson ar eich cyfer)
- Pensiwn Rhyfel (gyda Lwfans Gweini Cyson neu atodiad symudedd ar eich cyfer)
- Budd-dal Tai, gyda phremiwm anabledd neu bremiwm uwch i bensiynwyr
- Gostyngiad Treth Gyngor (a elwir weithiau'n Gymorth gyda'r Dreth Gyngor) gyda phremiwm anabledd neu bremiwm uwch i bensiynwyr sydd wedi cael ei dalu ers 1 Mawrth 2013 a Chredyd Treth Gwaith sydd wedi cael ei dalu'n barhaus ers 1 Mawrth 2013
- cerbyd o dan y Cynllun Motability
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) yn seiliedig ar gyfraniadau os cawsoch
  - y lwfans hwn am 28 wythnos neu'n hirach
  - Tâl Salwch Statudol (SSP) wedi ei ddilyn gan ESA yn seiliedig ar gyfraniadau am gyfnod cyfunol o 28 wythnos neu'n hirach

Does dim rhaid i'r 28 wythnos fod yn un cyfnod di-dor. Gallwch ychwanegu at ei gilydd unrhyw gyfnodau pan gawsoch:

- ESA yn seiliedig ar gyfraniadau, cyn belled nad oeddent yn fwy na 12 wythnos ar wahân
- SSP, cyn belled nad oeddent yn fwy nag 8 wythnos ar wahân
- SSP, gyda chyfnodau pan gawsoch ESA yn seiliedig ar gyfraniadau, cyn belled nad oeddent yn fwy na 12 wythnos ar wahân a gwnaethoch fodloni'r amodau ar gyfer ESA yn seiliedig ar gyfraniadau ar y diwrnodau y cawsoch SSP

Gallwch hawlio'r elfen gofal plant ar gyfer unrhyw blentyn hyd at y dydd Sadwrn ar ôl 1 Medi ar ôl ei:

- ben-blwydd yn 15 oed
- ben-blwydd yn 16 oed os
  - ardystiwyd bod gan y plentyn nam difrifol ar ei olwg neu ei fod yn ddall, gan offthalmolegydd ymgynghorol
  - nad yw'r plentyn bellach wedi'i ardystio fel rhywun â nam difrifol ar ei olwg, neu'n ddall, gan offthalmolegydd ymgynghorol, yn ystod y 28 wythnos cyn dyddiad eich hawliad neu ddyddiad eich adnewyddiad
  - rydych yn cael Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Anabledd Plant
  - rydych yn cael Taliad Annibyniaeth Personol, Taliad Anabledd Oedolion neu Daliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog gyfer y plentyn hwnnw

Os ydych ar absenoldeb mamolaeth, absenoldeb mabwysiadu, absenoldeb tadolaeth neu absenoldeb ar y cyd i rieni sy'n daledig ac rydych yn dal i gael eich trin fel petaech yn gweithio, gallwch hawlio costau gofal plant cofrestredig neu gymeradwy a dalwch am y canlynol:

- y plentyn y buoch ar absenoldeb o'r gwaith er mwyn gofalu amdano
- unrhyw blant eraill rydych yn gyfrifol amdanynt

Bydd hyn yn eich galluogi i drefnu gofal plant ar gyfer baban newydd neu blentyn cyn dychwelyd i'r gwaith.

Gallwch hawlio Credyd Treth Gwaith, gan gynnwys yr elfen gofal plant, o ddyddiad geni neu fabwysiadu'r plentyn cyhyd â'ch bod chi, ynghyd â'ch partner, yn dibynnu ar eich amgylchiadau, fel arfer yn gweithio o leiaf 16 neu 24 awr yr wythnos cyn i'ch absenoldeb mamolaeth, mabwysiadu neu dadolaeth ddechrau (darllenwch 'Oriau gwaith' ar dudalennau 7 ac 8).

Darllenwch dudalen 25 ynglŷn â newidiadau i'ch gofal plant. Rhaid i chi roi gwybod i ni am y newidiadau hyn gan y gallant effeithio ar faint o gredydau treth y byddwn yn eich talu.

## Beth ydym yn ei olygu gan ofal plant cofrestredig neu gymeradwy

### Yng Nghymru

I gael help gyda chostau gofal plant yng Nghymru, rhaid i'ch darparwr gofal plant fod:

- wedi'i gofrestru â'r Senedd trwy Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- yn unigolyn sydd wedi'i gyflogi neu ei hurio o dan gontract ar gyfer gwasanaethau i ddarparu gofal a chymorth gan y darparwr gwasanaeth cymorth gofal cartref o dan Ran 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
- yn ysgol sy'n darparu gofal plant y tu allan i oriau'r ysgol ac ar safle'r ysgol
- yn awdurdod lleol sy'n darparu gofal plant y tu allan i oriau'r ysgol
- yn rhywun a gymeradwywyd gan Gynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant (Cymru) 2021, sy'n darparu gofal plant yng nghartref y plentyn, neu os gofalir am nifer o blant, yn un o gartrefi'r plant
- yn ofalwr maeth cymeradwy, ond rhaid i'r gofal plant fod ar gyfer plentyn nad yw'n blentyn maeth y gofalwr, a rhaid i'r gofalwr maeth fod
  - wedi ei gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru os yw'ch plentyn o dan 8 oed
  - wedi ei gymeradwyo o dan Gynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant (Cymru) os yw'r gofal yn eich cartref eich hun ac mae'ch plentyn o dan 16 oed

I gael rhagor o wybodaeth am ofal plant yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru a chwilio am 'gofal plant'

### Yn Lloegr

I gael help gyda chostau gofal plant yn Lloegr, rhaid i'r gofal plant a ddefnyddiwch gael ei ddarparu wyneb yn wyneb gan y canlynol:

- darparwr gofal plant, megis gwarchodwr plant, cynllun chwarae, clwb gofal plant neu feithrinfa, a rhaid i'r darparwr fod wedi'i gofrestru gydag un o'r canlynol:
  - Cofrestr Blynyddoedd Cynnar (EYR) Ofsted, gyda naill ai Ofsted neu asiantaeth gwarchodwyr plant cofrestredig Ofsted os yw'ch plentyn dan 5 oed
  - rhan orfodol o Gofrestr Gofal Plant Cyffredinol Ofsted (GCR) gyda naill ai Ofsted neu asiantaeth gwarchod plant sy'n gofrestredig ag Ofsted, os yw'ch plentyn yn 5 i 7 oed
  - rhan gwirfoddol Ofsted o'r GCR gyda naill ai Ofsted neu asiantaeth gwarchod plant sy'n gofrestredig ag Ofsted, os yw'ch plentyn yn 8 oed neu'n hŷn
- nani sy'n darparu gofal plant yng nghartref y plentyn ei hun
  - cyhyd â'i fod wedi ei gofrestru gydag Ofsted
- gofal sy'n seiliedig ar weithgaredd, er enghraifft clwb chwaraeon - cyhyd â bod y darparwr wedi ei gofrestru gydag Ofsted

• ysgol, ar gyfer plant sydd naill ai'n 2, 3 neu 4 oed, cyhyd â bod y ddau ganlynol yn gymwys:
  – mae wedi ei ddarparu o dan gyfarwyddyd perchennog yr ysgol (naill ai'r corff llywodraethol neu'r person sy'n gyfrifol am reoli'r ysgol)
  – mae'n cael ei gynnal ar safle'r ysgol neu ar safle arall allai gael ei archwilio fel rhan o archwiliad o ysgol gan Ofsted neu gan gorff archwiliad cyfatebol a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i archwilio ysgolion annibynnol (er enghraifft, yr *Independent Schools Inspectorate, y Bridge Schools Inspectorate neu'r Schools Inspection Service*)
• ysgol, ar gyfer plant rhwng 5 a 15 oed (neu 16 oed os yn anabl), os yw pob un o'r canlynol yn gymwys:
  – mae wedi ei ddarparu y tu allan i oriau ysgol
  – mae wedi ei ddarparu o dan gyfarwyddyd perchennog yr ysgol (naill ai'r corff llywodraethol neu'r person sy'n gyfrifol am reoli'r ysgol)
  – mae'r gofal yn cael ei ddarparu ar safle'r ysgol neu ar safle arall a allai gael ei archwilio fel rhan o archwiliad o ysgol gan Ofsted, neu gan gorff archwilio cyfatebol a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i archwilio ysgolion annibynnol. Gall enghraifft o 'safle arall' fod yn neuadd bentref a ddefnyddir gan yr ysgol ar gyfer ei gweithgareddau gofal plant y tu allan i oriau'r ysgol
• gofalwr maeth cymeradwy a gofrestrwyd gydag Ofsted - ond rhaid i'r gofal plant fod ar gyfer plentyn nad yw'n blentyn maeth y gofalwr
• gweithiwr gofal neu nyrs o asiantaeth gofal cartref cofrestredig, sy'n gofalu am eich plentyn yn eich cartref.

I gael rhagor o wybodaeth am ofal plant yn Lloegr, ewch i www.gov.uk/childcare-tax-credits

**Yn yr Alban**

I gael help gyda chostau gofal plant yn yr Alban, rhaid i'ch darparwr gofal plant fod:

• wedi'i gofrestru gyda *Social Care and Social Work Improvement Scotland*
• yn glwb gofal plant sydd wedi cofrestru gyda *Social Care and Social Work Improvement Scotland* i ddarparu gofal plant y tu allan i oriau'r ysgol
• wedi'i gofrestru gydag asiantaeth gofal plant cofrestredig, gwasanaeth gwarchodwyr plant neu asiantaeth nanis sy'n rhoi gofal plant yng nghartref eich plentyn

Gallwch hefyd hawlio cymorth tuag at eich costau gofal plant yn yr Alban os ydych yn defnyddio:

• gofalwr maeth cymeradwy
• gofalwr perthynas

ond rhaid i'r gofal plant fod ar gyfer plentyn nad yw'n blentyn maeth y gofalwr neu'n blentyn i berthynas y gofalwr. Rhaid i'r gofalwr maeth neu'r gofalwr perthynas fod wedi cofrestru gyda *Social Care and Social Work Improvement Scotland* fel gwarchodwr plentyn neu ddarparwr gofal dydd.

I gael rhagor o wybodaeth am ofal plant yn yr Alban, ewch i www.scottishfamilies.gov.uk

**Yng Ngogledd Iwerddon**

I gael help gyda chostau gofal plant yng Ngogledd Iwerddon, rhaid i'ch darparwr gofal plant fod:

• wedi'i gofrestru gydag Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol
• yn ysgol sy'n darparu gofal plant y tu allan i oriau'r ysgol ac ar safle'r ysgol
• wedi'i gymeradwyo gan yr *Approval of Home Child Care Providers (Northern Ireland) Scheme 2006*, sy'n rhoi gofal plant yng nghartref y plentyn

- yn Fwrdd Addysg a Llyfrgell (*“Education and Library Board”*) sy’n darparu gofal plant y tu allan i oriau’r ysgol
- yn ofalwr maeth cymeradwy, ond rhaid i’r gofal plant fod ar gyfer plentyn nad yw’n blentyn maeth y gofalwr, a rhaid i’r gofalwr maeth fod
  - wedi ei gofrestru gydag Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol os yw’ch plentyn o dan 12 oed
  - wedi ei gymeradwyo o dan yr ‘*Approval of Home Child Care Providers (Northern Ireland) 2006 Scheme*’ os yw’r gofal yng nghartref eich plentyn ac mae’ch plentyn o dan 16 oed

I gael rhagor o wybodaeth am ofal plant yng Ngogledd Iwerddon, cysylltwch â’r Tîm Blynyddoedd Cynnar yn eich Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol leol.

Ewch i www.nidirect.gov.uk/early-years-teams

**Gweision y Goron sy’n gweithio dramor**

Os ydych yn was sifil neu’n aelod o’r Lluoedd Arfog sy’n gweithio dramor, ac mae’ch plentyn wedi mynd gyda chi, yna efallai gallwch gael help gyda chostau gofal plant os yw’ch darparwr gofal plant wedi ei gymeradwyo gan gynllun achrediad y Weinyddiaeth Amddiffyn dramor.

I gael ragor o wybodaeth, ewch i GOV.UK a chwilio am WTC5.

## Gofal plant a ddarperir gan berthynas

Gallai perthynas olygu:
- rhiant
- taid/tad-cu neu nain/mam-gu
- modryb neu ewythr
- brawd neu chwaer
- llysriant

Cydnabyddir person sydd wedi mynd mewn i bartneriaeth sifil fel person sy’n gallu darparu gofal plant fel rhiant, taid/tad-cu neu nain/mam-gu, modryb neu ewythr, neu lysriant.

Ni allwch gael elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith os darperir eich gofal plant gan berthynas, hyd yn oed os yw ef wedi ei gofrestru neu ei gymeradwyo. Caiff Credyd Treth Gwaith ei dalu ar ben unrhyw Gredyd Treth Plant y gallai fod hawl gennych iddo.

Yr eithriad i hyn yw pan fo’ch perthynas, sy’n un o’r canlynol:

- gwarchodwr plant cofrestredig, yn gofalu am eich plentyn y tu allan i gartref eich plentyn
- darparwr gofal plant, a gymeradwywyd o dan Gynllun Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref yng Nghymru neu yng Ngogledd Iwerddon, yn gofalu am eich plentyn y tu allan i gartref eich plentyn ac yn gofalu am o leiaf un plentyn arall nad yw’n perthyn iddo

Gall y berthynas fod trwy waed, hanner gwaed, priodas, partneriaeth sifil neu affinedd. Mae ‘affinedd’ yn golygu person gyda pherthynas gref i’r plentyn, er enghraifft, rhywun mewn sefyllfa rhiant mewn cysylltiad â phlant y partner, gan gynnwys llysrieni.

Ni allwch hawlio costau gofal plant os nad yw’r gofal plant wedi ei gofrestru nac yn gymeradwy. Dylai eich darparwr fod yn gallu rhoi gwybod i chi a yw wedi ei gofrestru neu ei gymeradwyo ai peidio. Rhaid i rai darparwyr adnewyddu eu cofrestriad bob blwyddyn. Gofynnwch i gael gweld eu tystysgrif cofrestru neu gymeradwyo i wirio a yw’n ddilys o hyd.

Er mwyn hawlio’r elfen gofal plant, rhaid i chi gyfrifo eich costau gofal plant wythnosol ar gyfartaledd. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae gwneud hyn, darllenwch ein taflen WTC5, ‘Credyd Treth Gwaith: help gyda chostau gofal plant’.

Ewch i GOV.UK a chwilio am WTC5.

## 4 Incwm a chyfalaf

I roi gwybod am newid, ewch i www.gov.uk/newidiadau-effeithio-credydau-treth

> Mae credydau treth wedi cael eu disodli gan Gredyd Cynhwysol.
> Gallwch ond gwneud hawliad am Gredyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith os ydych eisoes yn cael credydau treth. Bydd angen i chi ddiweddaru'ch hawliad presennol am gredydau treth drwy roi gwybod am newid yn eich amgylchiadau ar-lein neu'n yn ysgrifenedig.

I gael rhagor o wybodaeth am y mathau o incwm sy'n cael eu hystyried at ddibenion credydau treth, ewch i www.gov.uk/guidance/tax-credits-working-out-income

Mae swm y credydau treth y byddwch yn eu cael yn dibynnu ar eich amgylchiadau, er enghraifft:

- faint o blant neu bobl ifanc cymwys yr ydych yn gyfrifol amdanynt
- faint o oriau rydych yn eu gweithio bob wythnos
- p'un a ydych yn anabl ai peidio
- faint yr ydych yn ei dalu am ofal plant cofrestredig neu gymeradwy

Mae'n dibynnu hefyd ar lefel eich incwm. Os ydych yn rhan o gwpl, bydd yn dibynnu ar eich incwm ar y cyd.

Gan fod Credyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith yn gredydau treth blynyddol, byddwn yn edrych ar eich incwm am flwyddyn dreth er mwyn cyfrifo'ch dyfarniad, fel arfer y flwyddyn dreth olaf lawn cyn blwyddyn yr hawliad am gredydau treth.

### Pa incwm y mae'n rhaid i chi ei nodi

Ar gyfer credydau treth, fel arfer rydym yn ystyried eich ffigur enillion gros (mae hyn cyn didyniadau Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol). Mae eithriadau, ac mae rhai ohonynt wedi'u nodi ar y dudalen nesaf.

Os ydych yn gwneud cyfraniadau o'ch enillion er mwyn prynu cyfranddaliadau yng nghwmni eich cyflogwr o dan Gynllun Cymell Cyfranddaliadau, yna mae'n rhaid i'r cyfraniadau hynny gael eu hychwanegu'n ôl at eich cyflog gros.

Dylid didynnu cyfraniadau gros i gynllun pensiwn a gofrestrwyd gyda Chyllid a Thollau EF (er enghraifft, cynllun pensiwn personol neu flwydd-dal ymddeol) a thaliadau gros o dan y cynllun Rhodd Cymorth, wrth gyfrifo'ch incwm ar gyfer hawliad am gredydau treth. Os gwnaethoch gyfraniadau pensiwn personol, neu gyfraniadau blwydd-dal ymddeol, taliadau Rhodd Cymorth neu golled fasnachu, darllenwch TC825, *'Working sheet for tax credit relief for Gift Aid donations, pension contributions and trading losses'*.

Ewch i GOV.UK a chwilio am TC825.

Ni ddylech fel arfer didynnu cyfraniadau i gynllun pensiwn galwedigaethol na thaliadau o dan gynllun rhoi trwy'r gyflogres neu gynllun Rhoi Wrth Ennill. Mae hyn oherwydd bod y cyflogwr eisoes wedi didynnu'r taliadau hyn o'ch cyflog gros.

Rydym yn ystyried swm llawn cyflog a thâl pan fyddwn yn cyfrifo faint o gredydau treth i'w talu i chi, mae hyn yn cynnwys:

- comisiwn
- bonysau
- cildyrnau
- arian rhodd
- tâl yn berthnasol i elw
- tâl gwyliau
- Tâl Salwch Statudol
- rhai buddiannau y gellir eu darparu gan eich cyflogwr (er enghraifft, car a thanwydd car, lwfansau ar gyfer defnyddio eich cerbyd eich hun ar fusnes, talebau a thocynnau credyd)

Er bod Tâl Mamolaeth Statudol, Tâl Tadolaeth Statudol, Tâl Mabwysiadu Statudol a Thâl Statudol Rhieni mewn Profedigaeth yn drethadwy, dylech ddidynnu'r gwir swm a dalwyd hyd at uchafswm o £100 ar gyfer pob wythnos o daliad o'ch incwm at ddibenion credydau treth.

Dylech gynnwys:

- enillion a gewch o gyflogaeth o'r tu allan i'r DU
- elw trethadwy o hunangyflogaeth, gan gynnwys enillion o'r tu allan i'r DU
- y budd-daliadau nawdd cymdeithasol trethadwy canlynol
  - Lwfans Gofalwr neu Daliad Cymorth Gofalwr
  - Lwfans Profedigaeth
  - Lwfans Ceisio Gwaith ar sail cyfraniadau
  - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail cyfraniadau
  - Cymhorthdal Incwm a dalwyd i gwpl ac roedd y person a oedd yn ei gael ar streic
  - Budd-dal Analluogrwydd a dalwyd ar ôl y 28 wythnos gyntaf o analluogrwydd (ar y gyfradd uwch fyrdymor a'r gyfradd hirdymor, gan gynnwys cynnydd ar gyfer plentyn dibynnol a delir gyda'r budd-daliadau hyn)
- mae Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar incwm yn drethadwy ond nid yw'n cael ei gynnwys fel incwm ar gyfer credydau treth
- Grant Oedolyn Dibynnol a delir i fyfyrwyr sydd â phriod, partner sydd heb briodi neu oedolyn dibynnol, ac yn yr Alban, unrhyw grant Plentyn Dibynnol

Peidiwch a chynnwys budd-daliadau nad ydynt yn drethadwy, megis:

- Budd-dal Plant
- Lwfans Gweini/Taliad Anabledd Oedran Pensiwn
- Lwfans Byw i'r Anabl/Taliad Anabledd Plant neu Daliad Annibyniaeth Personol/Taliad Anabledd Oedolion
- Gostyngiad Treth Gyngor (a elwir weithiau yn Gymorth gyda'r Dreth Gyngor) neu'r Budd-dal Tai
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm

Rydym hefyd yn cymryd i ystyriaeth:

- Pensiynau Ymddeol y Wladwriaeth (gan gynnwys Lwfans Rhiant Gweddw, Lwfans Mam Weddw, Pensiwn Gwraig Weddw a Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol) a phensiynau galwedigaethol neu bersonol - ond nid pensiynau rhyfel, p'un y'u telir ar sail clwyfau neu anabledd neu y'u telir i weddwon
- y rhan fwyaf o incwm o gynilion a buddsoddiadau (er enghraifft, llog o gyfrifon banc a chymdeithasau adeiladu, holl ddifidendau o gwmnïau yn y DU, taliadau o ymddiriedolaethau neu ystâd person ymadawedig sy'n cael ei weinyddu) ond nid incwm o rai buddsoddiadau sy'n rhydd o dreth penodol, megis Cyfrifon Cynilion Unigol (ISAs), Cynlluniau Ecwiti Personol (PEPs) neu gynhyrchion Cynilion Cenedlaethol di-dreth
- incwm drwy osod eiddo
  - ond nid incwm sydd wedi'i eithrio rhag Treth Incwm o dan y cynllun Rhentu Ystafell
- holl incwm tramor, p'un y'i cafwyd a'i drethwyd yn y DU ai peidio (oni bai nad oeddech yn gallu anfon yr incwm i'r DU oherwydd rheolaethau cyfnewid yn y wlad lle deilliodd yr incwm) - er enghraifft, o fuddsoddiadau neu eiddo tramor, neu daliadau nawdd cymdeithasol gan lywodraethau tramor (cyn didynnu treth dramor ond ar ôl didynnu taliadau neu gomisiwn a godir gan fanc wrth drosi arian tramor i bunnoedd)
- incwm amrywiol sy'n agored i dreth, megis breindaliadau hawlfraint a delir i rywun nad yw'n awdur neu'n gyfansoddwr proffesiynol, sy'n agored i dreth o dan Ran 5 Deddf Treth Incwm (Incwm Masnachu ac Incwm Arall) 2005

Mae'r Cynllun Rhentu Ystafell yn gadael i chi ennill hyd at drothwy o £7,500 y flwyddyn o osod llety wedi ei ddodrefnu yn eich cartref eich hun. Hanerir hyn os ydych yn rhannu'r incwm â'ch partner neu rywun arall. Gallwch roi gymaint o'ch cartref a hoffech ar osod.

Ond dylech ddidynnu'r £300 cyntaf o'r cyfanswm cyfunol, ar wahân i:

- incwm o gyflogaeth
- incwm o hunangyflogaeth
- budd-daliadau nawdd cymdeithasol trethadwy
- grant myfyriwr dibynnol
- incwm amrywiol

Dim ond os yw'r incwm arall yn fwy na chyfanswm o £300 mewn blwyddyn y dylech ei nodi. Os ydych yn hawlio fel cwpl, mae'r terfyn o £300 yn gymwys i'ch incwm ar y cyd, nid i'ch incwm ar wahân.

I gael help ar sut i weithio allan eich incwm os ydych yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig, ewch i www.gov.uk/tax-credits-working-out-income

## Ynglŷn â chyfalaf

Fel arfer, ni fyddwn yn cymryd cyfalaf i ystyriaeth wrth gyfirfo'ch hawl i gael credydau treth. Rydym yn defnyddio 'cyfalaf', wrth gyferirio at y canlynol:

- symiau mewn cyfrirfon cyfredol a chyfrifon cynilo mewn banciau a chymdeithasau adeiladu
- y mwyafrif o gyfandaliadau, gwerth yr eiddo, cyfranddaliadau a buddsoddiadau eraill

Fodd bynnag, mewn rhai achosion pan fo'r rheolau Treth Incwm yn trin cyfalaf fel incwm ac yn ei drethu fel incwm, disgwylir i chi gynnwys y swm trethadwy fel incwm yn eich hawliad am gredydau treth. Gall hyn ddigwydd os ydych er enghraifft yn dal cyfranddaliadau mewn cwmni yn y DU ac mae'r cwmni yn rhoi difidend stoc i chi (cyfranddaliadau newydd) yn hytrach na difidend ar ffurf arian parod. Mae hyn yn rhan o'r hyn a elwir yn 'incwm tybiannol'.

## Yr hyn y mae 'incwm tybiannol' yn ei olygu

Heblaw am gyfalaf sy'n cael ei drin fel incwm o dan reolau Treth Incwm, mae incwm tybiannol hefyd yn cynnwys incwm y gellir ei drin fel petai gennych, er nad yw gennych mewn gwirionedd, megis:

- incwm ymddiriedolaeth sy'n daladwy i un person ond y mae'r rheolau Treth Incwm yn ei drin fel incwm person arall - mae rheolau credydau treth hefyd yn trin yr incwm fel petai'n eiddo i'r person arall hwnnw (er enghraifft, incwm o fuddsoddiadau plentyn pan fo arian yr ymddiriedolaeth wedi ei ddarparu gan riant ac mae'r swm yn fwy na £100)
- incwm rydych wedi byw hebddo er mwyn cael credydau treth neu fwy o gredydau treth
- incwm a fyddai ar gael i chi petaech yn gwneud cais amdano, er enghraifft, budd-dal nawdd cymdeithasol. Mae rhai eithriadau, er enghraifft,
  - pensiwn y Wladwriaeth neu bensiwn personol gohiriedig, neu flwydd-dal ymddeol gohiriedig
  - iawndal ar gyfer anaf personol
- os ydych yn gweithio neu'n darparu gwasanaeth am ddim neu am lai na'r gyfradd sylfaenol, rydych yn cael eich trin fel eich bod yn cael y gyfradd sylfaenol ar gyfer y swydd os oes gan y person yr ydych yn gweithio iddo, neu yr ydych yn darparu'r gwasanaeth ar ei gyfer, fodd o dalu - nid yw hyn yn berthnasol os ydych yn gweithio fel gwirfoddolwr (er enghraifft, yn helpu mewn siop elusen neu Ganolfan Cyngor ar Bopeth) neu os ydych yn cymryd rhan mewn rhaglen gyflogaeth neu hyfforddiant

## Credydau treth a thaliadau cynhaliaeth

Nid ydym yn ystyried taliadau cynhaliaeth, megis cymorth plant neu daliadau setliad ysgariad, wrth gyfrifo'ch dyfarniad credydau treth.

## Credyd Treth Plant a benthyciadau neu grantiau i fyfyrwyr

Nid ydym yn ystyried benthyciadau myfyrwyr neu grantiau i fodloni cost taliadau dysgu, gofal plant, neu Lwfans Dysgu i Rieni wrth gyfrifo'ch dyfarniad credydau treth. Dylech, fodd bynnag, roi gwybod i ni os ydych yn cael Grant Oedolyn Dibynnol ar gyfer priod, partner sydd heb briodi neu oedolyn dibynnol, ac yn yr Alban, Grant Plentyn Dibynnol.

Os ydych yn fyfyriwr nyrsio neu'n weithiwr iechyd proffesiynol o dan hyfforddiant, ac rydych yn cael bwrsari o dan Gynllun Bwrsari'r GIG, nid oes angen i chi sôn am y taliadau hyn yn eich hawliad.

Ar ôl i chi orffen eich astudiaethau a dechrau gweithio, nid yw ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr yn ddidynadwy o'ch incwm at ddibenion hawliadau am gredydau treth.

## Lle i ddod o hyd i fanylion eich incwm

Os cawsoch eich cyflogi yn y flwyddyn dreth 2023 i 2024, dangosir manylion eich enillion ar:

- eich tystysgrif treth P60 a roddwyd i chi gan eich cyflogwr ar ôl diwedd y flwyddyn dreth honno, neu P45 os gwnaethoch adael cyn 5 Ebrill 2024
- eich slipiau cyflog
- eich tystysgrif P11D (os cawsoch fuddiannau perthnasol) a roddwyd i chi gan eich cyflogwr
  - os yw eich cyflogwr wedi talu'r buddiannau hyn drwy'r gyflogres, bydd yn rhaid i chi ddidynnu'r cyfanswm cyfatebol mewn arian parod o gyfanswm eich incwm P60 a P45.

Os oeddech yn hunangyflogedig yn y flwyddyn dreth 2023 i 2024, caiff manylion eich enillion eu dangos ar eich Ffurflen Dreth Hunanasesiad.

Os adnewyddir eich dyfarniad credydau treth yn awtomatig, ac rydych mewn cyflogaeth TWE, byddwn wedi defnyddio ffigurau incwm a roddwyd i ni gan eich cyflogwr. Mae'n bwysig eich bod yn gwirio bod y ffigurau hyn yn gywir ar gyfer credydau treth. Cysylltwch â ni os ydych yn meddwl eu bod yn anghywir. Bydd eich nodiadau adnewyddu yn helpu.

## Elw a cholledion masnachu

Os ydych yn hunangyflogedig, dylech roi gwybod i ni beth yw'r elw trethadwy a gyfrifwyd yn eich Ffurflen Dreth Hunanasesiad ar gyfer 2023 i 2024. Fodd bynnag, os ydych yn ffermwr, garddwr masnachol neu'n grëwr gwaith llenyddol neu artistig, ni chaniateir rhyddhad cyfartalu ar gyfer elw sy'n amrywio mewn hawliadau am gredydau treth. Os nad ydych wedi anfon eich Ffurflen Dreth Hunanasesiad atom eto ar gyfer 2023 i 2024, rhaid i chi amcangyfrif eich elw am y flwyddyn honno.

Os gwnaeth eich busnes golled yn y flwyddyn dreth honno, at ddibenion credydau treth gallwch osod y golled honno yn erbyn:

- incwm arall a allai fod gennych ar gyfer y flwyddyn honno
- incwm eich priod neu bartner sifil ar gyfer y flwyddyn honno
- incwm eich partner personol (ond nid eich partner busnes) ar gyfer y flwyddyn honno

Mae’n rhaid i chi gario unrhyw golled sy’n weddill (y rhan o’r golled nas defnyddiwyd ar ôl didynnu incwm arall ar gyfer y flwyddyn honno) ymlaen er mwyn ei osod yn erbyn elw’r un busnes yn y flwyddyn dreth nesaf. Er enghraifft, os gwnaeth eich busnes golled yn y flwyddyn dreth 2022 i 2023 ac mae yna golled yn weddill ar ôl ei didynnu o incwm arall a wnaed yn 2022 i 2023, mae’n rhaid i ran y golled nas defnyddiwyd gael ei gario ymlaen a’i didynnu o elw’r un busnes ym mwyddn dreth 2023 i 2024.

Os gwnaethoch golled fasnachu, darllenwch TC825, *‘Working sheet for tax credit relief for Gift Aid donations, pension contributions and trading losses*’.

Ewch i GOV.UK a chwilio am TC825.

Os cawsoch fudd-daliadau nawdd cymdeithasol yn 2023 i 2024, dylai’r Adran Gwaith a Phensiynau (y Department for Communities yng Ngogledd Iwerddon) fod wedi anfon cofnod atoch i ddangos swm trethadwy’r budd-dal.

Os cawsoch fathau eraill o incwm, dylech edrych drwy’r datganiadau, paslyfrau neu dystysgrifau didyniadau treth a roddwyd i chi gan dalwr yr incwm. Dylech gadw’r rhain at ddibenion treth.

## 5 Sut y cyfrifir eich dyfarniad credydau treth

I gyfrifo swm y credydau treth y byddwch chi a’ch partner (os oes gennych un) yn eu cael, byddwn yn gwneud y canlynol:

1. rhannu pob elfen o Gredyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith y mae gan eich teulu hawl iddi â nifer y diwrnodau yn y flwyddyn dreth a thalgrynnu hyn i’r geiniog agosaf i roi’r gyfradd ddyddiol.
2. lluosi cyfraddau dyddiol pob elfen â nifer y diwrnodau yn y cyfnod perthnasol a’u hychwanegu at ei gilydd er mwyn cyfrifo hawliad uchaf eich teulu.
3. edrych ar eich incwm, ac ar incwm eich partner (os oes gennych un)er mwyn cyfrifo a gewch gredydau treth llawn neu ar gyfradd ostyngol.

Byddwn yn anfon hysbysiad o ddyfarniad atoch a fydd yn rhoi gwybod i chi faint o gredydau treth a gewch a phryd y bydd y taliadau’n dechrau. Byddwch chi neu’ch partner yn cael swm llawn y credydau treth yr ydych yn gymwys ar eu cyfer yn awtomatig os byddwch yn cael naill ai:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm
- Credyd pensiwn

Os oes gennych hawl i Gredyd Treth Plant yn unig, cewch y swm llawn tan i’ch incwm blynyddol gyrraedd £19,995.

Os oes gennych hawl i Gredyd Treth Gwaith, boed hynny ar ei ben ei hun neu’n ychwanegol at y Credyd Treth Plant, a bod incwm blynyddol eich teulu o dan y trothwy o £7,955, fe gewch yr uchafswm ar gyfer yr holl elfennau yr ydych yn gymwys ar eu cyfer. Os yw’ch incwm dros £7,955, caiff yr uchafswm ei ostwng 41 ceiniog am bob punt o incwm (41%) sydd dros £7,955 (wedi ei dalgrynnu i lawr i’r geiniog agosaf).

Os yw’ch incwm dros £7,955, bydd eich credydau treth yn cael eu lleihau yn y drefn ganlynol:

- Credyd Treth Gwaith (ar wahân i’r elfen gofal plant)
- elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith
- elfennau plentyn y Credyd Treth Plant
- elfen deuluol y Credyd Treth Plant

## Beth sy'n digwydd unwaith rydych yn cael credydau treth

I ddechrau, bydd eich dyfarniadau credydau treth yn seiliedig ar eich amgylchiadau presennol a'ch incwm am y flwyddyn dreth flaenorol.

Os na fydd eich amgylchiadau'n newid ac os nad oes newidiadau sylweddol yn eich incwm yn ystod y flwyddyn, bydd y dyfarniad cychwynnol yn rhedeg tan ddiwedd y flwyddyn dreth (5 Ebrill).

Ar ddiwedd y flwyddyn dreth, byddwn yn anfon hysbysiad adnewyddu atoch sy'n rhoi gwybod i chi pa wybodaeth sydd gennym am eich hawliad, yn benodol yr wybodaeth sydd gennym am yr amgylchiadau a'r incwm y gwnaethom seilio'r dyfarniad arnynt, a faint o gredydau treth y gwnaethom eu talu i chi dros y flwyddyn. Dylech wirio'r hysbysiad hwn yn ofalus a gwneud y canlynol:

- cadarnhau bod y manylion yn gywir, os ydym wedi gofyn i chi
- cywiro'r manylion os oes newidiadau nad ydych wedi sôn wrthym amdanynt yn flaenorol

Mae'n rhaid i chi hefyd roi gwybod i ni am eich incwm am y flwyddyn sydd newydd ddod i ben. I wneud hyn, gallwch wneud y canlynol:

- mynd ar-lein yn www.gov.uk/rheoli-eich-credydau-treth
- llenwi'r hysbysiad o ddatganiad a'i ddychwelyd yn yr amlen a ddarparwyd

Pan fydd yr holl fanylion gennym, byddwn yn:

- gwirio a oedd y swm y gwnaethom ei dalu i chi'n gywir
- cyfrifo'ch dyfarniad am y flwyddyn ddilynol, oherwydd bydd yr hysbysiad adnewyddu hefyd yn gweithredu fel eich hawliad am y flwyddyn ddilynol

Os arhosodd eich amgylchiadau a'ch incwm yr un fath trwy gydol y flwyddyn sydd newydd ddod i ben, neu os nad oedd eich incwm yn y flwyddyn honno yn fwy na £2,500 yn uwch na'r flwyddyn cyn hynny, dylech fod wedi cael y swm cywir o gredydau treth am y flwyddyn honno.

Os yw'ch incwm yn disgyn £2,500 neu lai drwy gydol y flwyddyn, ni fydd symiau'r credydau treth a gewch yn cael eu heffeithio.

> Gan fod eich taliadau ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn rhai dros dro ac yn seiliedig ar eich incwm o flynyddoedd blaenorol, dylech roi gwybod i ni am newidiadau i'ch incwm wrth iddynt ddigwydd. Bydd oedi tan i chi wneud eich datganiad adnewyddu ar ddiwedd y flwyddyn yn golygu y gall gordaliad godi mewn rhai achosion, ac efallai y gofynir i chi ei ad-dalu.

Os mai dim ond elfen deuluol y Credyd Treth Plant a gewch, neu os buoch yn cael swm llawn y Credyd Treth Plant oherwydd eich bod wedi bod yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail incwm neu Gredydau Pensiwn ar gyfer cyfnod cyfan y dyfarniad, does dim rhaid i chi wneud unrhyw beth os yw'r canlynol yn wir:

- mae'ch incwm yn aros o fewn yr ystod a nodir yn yr hysbysiad adnewyddu
- nid yw'ch amgylchiadau wedi newid

Bydd yr hysbysiad hwn yn rhoi gwybod i chi a oes angen ei ddychwelyd ai peidio.

Os nad oes angen i chi ddychwelyd yr hysbysiad, cewch eich trin fel petaech wedi gwneud hawliad newydd ar gyfer y dyfarniad nesaf yn awtomatig.

Gallwch roi gwybod i ni am unrhyw un o'r newidiadau hyn drwy:

- fynd ar lein yn www.gov.uk/rheoli-eich-credydau-treth
- ysgrifennu atom yn Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF HMRC BX9 1ST

## Beth fydd yn digwydd os yw'ch amgylchiadau neu'ch incwm yn newid

Mae rhai newidiadau a allai effeithio ar swm eich dyfarniad credyd treth. Maen nhw'n cynnwys:

- newidiadau yn nifer yr oedolion yn y cartref, er enghraifft, os ydych chi a'ch partner yn peidio â byw gyda'ch gilydd neu os ydych wedi bod yn byw ar eich pen eich hun ac rydych yn dechrau byw gyda rhywun fel cwpl
- newidiadau yn eich amgylchiadau sy'n effeithio ar elfennau'r credydau treth yr ydych yn gymwys ar eu cyfer, megis
  - genedigaeth neu farwolaeth plentyn
  - plentyn neu berson ifanc cymwys yn gadael yr aelwyd neu'n peidio â bod mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy
  - rhoi'r gorau i ddefnyddio gofal plant cofrestredig neu gymeradwy
  - newid eich oriau gwaith wythnosol arferol
  - symud dramor
- rydych chi neu eich partner yn dechrau bod yn gymwys ar gyfer elfen anabledd y Credyd Treth Gwaith
- nid oes gennych chi na'ch partner anabledd mwyach sy'n golygu eich bod dan anfantais o ran cael swydd
- mae offthalmolegydd ymgynghorol yn ardystio bod gan blentyn rydych yn gyfrifol amdano nam difrifol ar ei olwg neu ei fod yn ddall
- mae Lwfans Byw i'r Anabl/Taliad Anabledd Plant neu Daliad Annibynnol Personol/Taliad Anabledd Oedolion yn dechrau cael ei dalu neu'n peidio â chael ei dalu ar gyfer plentyn rydych yn gyfrifol amdano
- mae cyfradd elfen ofal uchaf y Lwfans Byw i'r Anabl/Taliad Anabledd Plant, neu elfen bywyd bob dydd ychwanegol y Taliad Annibyniaeth Personol/Taliad Anabledd Oedolion, Lwfans Gweini/Taliad Anabledd Oedran Pensiwn yn dechrau neu yn gorffen cael ei thalu ar eich cyfer chi, eich partner, neu blentyn yr ydych yn gyfrifol amdano
- mae cyfradd uwch y Lwfans Gweini yn dechrau cael ei thalu neu'n peidio â chael ei thalu ar eich cyfer chi neu eich partner
- newidiadau mewn incwm rhwng y flwyddyn flaenorol a'r flwyddyn gyfredol

Dylech gadw:

- cofnod o unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau yr ydych wedi rhoi gwybod i ni amdanynt
- eich hysbysiad o ddyfarniad newydd ar ôl i chi roi gwybod i ni am newid mewn amgylchiadau

## Newidiadau mewn amgylchiadau

Bydd yn rhaid i chi roi gwybod i ni am newidiadau yn eich amgylchiadau. Os na wnewch hynny, gellir gordalu credydau treth i chi neu efallai na chewch y swm llawn y mae gennych hawl iddo. Efallai y bydd yn rhaid i chi hefyd dalu cosb o hyd at £300.

Os bydd newid yn cynyddu faint o gredydau treth a gewch, gellir ôl ddyddio'r cynnydd hyd at un mis yn unig. Er enghraifft, os cawsoch fabi ar 12 Mehefin ond ni wnaethoch hysbysu'r ffaith tan 12 Hydref, byddai eich credydau treth yn cael eu cynyddu o 12 Medi yn unig.

Bydd yr elfen plentyn ar gyfer person ifanc 16, 18 neu 19 oed yn stopio'n awtomatig bob blwyddyn, oni bai eich bod yn rhoi gwybod i ni ei fod yn aros mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy.

Bydd yr elfen plentyn ar gyfer person ifanc sy'n 17 oed sy'n aros mewn addysg llawn amser nad yw'n addysg uwch neu'n hyfforddiant cymeradwy, yn parhau yn awtomatig.

Rhaid i chi roi gwybod i ni cyn pen un mis os gwnaethoch:

- hawliad sengl ond eich bod bellach wedi priodi, mewn partneriaeth sifil, neu'n byw gyda rhywun fel petaech yn briod neu'n rhan o bartneriaeth sifil
- hawliad ar y cyd (fel rhan o gwpl) ond rydych wedi gwahanu erbyn hyn, neu os oes un ohonoch yn marw

Rhaid i chi hefyd roi gwybod i ni cyn pen un mis os:

- ydych chi neu'ch partner yn rhoi'r gorau i weithio
- ydych chi neu'ch partner yn rhoi'r gorau i weithio mwy na'r isafswm oriau perthnasol o 16 neu 30 awr yr wythnos (ar gyfer cyplau â phlant, lleiafswm eich oriau gwaith ar y cyd yw 24 awr a rhaid bod o leiaf un ohonoch yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos)
- ydych yn colli'ch swydd
- ydych wedi bod ar streic am fwy na 10 diwrnod
- ydych chi neu'ch partner yn ymadael â'r DU yn barhaol neu'n mynd dramor am fwy nag 8 wythnos, (neu fwy na 12 wythnos os ewch dramor neu os arhoswch dramor oherwydd eich bod yn sâl neu oherwydd bod aelod o'ch teulu'n sâl neu wedi marw)
- ydych chi a'ch partner yn colli'r hawl i breswylio yn y DU

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/tax-credits-if-moving-country-or-travelling

Rhaid i chi hefyd roi gwybod i ni cyn pen un mis os:

- bydd plentyn neu berson ifanc cymwys yn gadael y teulu ac yn symud i fyw gyda rhywun arall - mae hyn yn cynnwys plentyn neu berson ifanc cymwys sydd
  – wedi'i roi mewn gofal neu sydd wedi ei faethu gan deulu arall
  – wedi ei ddedfrydu i'r ddalfa neu ei garcharu am gyfnod sy'n hirach na 4 mis
- yw plentyn neu berson ifanc cymwys yn marw
- bydd person ifanc cymwys yn gadael addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy cyn iddo gyrraedd 20 oed neu'n peidio â chael ei gofrestru gyda gwasanaeth gyrfaoedd, Connexions, gwasanaeth cymorth awdurdod lleol neu sefydliad tebyg (yng Ngogledd Iwerddon, yr Adran Cymunedau neu'r Awdurdod Addysg) neu'r Weinyddiaeth Amddiffyn os yw'n aros i ymuno â'r lluoedd arfog
- yw person ifanc yn dechrau cael hyfforddiant a ddarperir o dan gytundeb cyflogaeth
- yw person ifanc cymwys yn dechrau cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith ar sail incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Gredyd Cynhwysol ei hun
- rhoesoch wybod i ni fod eich plentyn yn parhau mewn addysg amser llawn nad yw'n addysg uwch neu hyfforddiant cymeradwy ar ôl 31 Awst yn dilyn ei ben-blwydd yn 16 oed, ond wedyn ni wnaeth hynny

Os gwnaethoch hawlio costau gofal plant rhaid i chi roi gwybod i ni'r diwrnod olaf a ofalwyd am eich plentyn gan ddarparwr cofrestredig os:

- yw eich darparwr gofal plant yn peidio â bod yn gofrestredig neu'n gymeradwy
- ydych yn rhoi'r gorau i ddefnyddio darparwr gofal cofrestredig neu gymeradwy
- yw'ch costau gofal plant wythnosol cyfartalog yn mynd i lawr £10 neu fwy
- yw'ch costau gofal plant yn disgyn i sero
- gwnaeth eich plentyn roi'r gorau i fynd i ofal plant am 4 wythnos neu fwy pan fyddai fel arfer wedi mynd
- ydych yn dechrau cael help ar gyfer eich gofal plant gan awdurdod lleol neu unrhyw adran o'r llywodraeth - megis grant addysg yn y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 3 a 4 oed
- ydych yn dechrau cael cymorth ar gyfer eich costau gofal plant drwy'ch cyflogwr, megis talebau gofal plant yn gyfnewid am ostyngiad yn eich cyflog (a elwir yn aberthu cyflog)
- nad ydych bellach yn gymwys ar gyfer costau gofal plant fel cwpl oherwydd bod un ohonoch bellach yn gweithio llai na 16 awr yr wythnos

Dylech roi gwybod i ni os yw'ch costau gofal plant wythnosol cyfartalog yn cynyddu £10 yr wythnos neu fwy, neu os ydych yn newid i ddarparwr gofal plant cofrestredig neu gymeradwy gwahanol. Bydd angen i ni wybod rhif cofrestru neu rif cymeradwyo eich darparwr. Efallai bydd angen i ni gysylltu â'ch darparwr gofal plant o bryd i'w gilydd i wneud gwiriadau. Os na fyddwn yn medru cysylltu â'ch darparwr, efallai byddwn yn peidio â thalu'r Credyd Treth Gwaith ychwanegol ar gyfer eich gofal plant.

## Newidiadau yn eich oriau gwaith

Rhaid i chi roi gwybod i ni cyn pen un mis os yw'r canlynol yn digwydd:

- os ydych yn rhoi'r gorau i weithio 16 neu 30 awr yr wythnos (ar gyfer cyplau gyda phlant, 24 awr yr wythnos rhyngoch, gydag o leiaf un ohonoch yn gweithio 16 awr yr wythnos)
- os ydych yn gweithio o leiaf 30 awr yr wythnos ac mae'ch oriau gwaith yn disgyn i lai na 30 (ar gyfer cyplau gyda phlant, mae'ch oriau gwaith ar y cyd yn cyfrif tuag at y 30 awr)
- os ydych yn peidio â gweithio
- os yw'ch cyflogwr yn eich diswyddo dros dro

Efallai cewch Gredyd Treth Gwaith am 4 wythnos o'r newid:

- os yw'ch oriau gwaith yn disgyn i lai nag 16 neu 30 awr yr wythnos (ar gyfer cyplau gyda phlant 24 awr rhyngoch a rhaid i un ohonoch weithio o leiaf 16 awr yr wythnos)
- os ydych yn peidio â gweithio yn gyfan gwbl

Os yw'ch cyflogwr yn eich diswyddo ac yn rhoi gwybod i chi fod hynny dros dro, cewch eich trin fel petaech yn dal i weithio am hyd at 4 wythnos o'r dyddiad y bydd eich cyflogwr yn eich diswyddo. Os nad oes gwaith i chi ar ôl hynny, cewch eich trin fel na phetaech yn gweithio. Bydd gennych hawl i daliad 'parhad' o Gredyd Treth Gwaith am 4 wythnos arall cyn i'ch Credyd Treth Gwaith ddod i ben.

Gallwch gael Credyd Treth Gwaith am hyd at 8 wythnos yn unig ar ôl i'ch cyflogwr eich diswyddo dros dro.

**Enghraifft 1**

Mae John Smith yn cael ei ddiswyddo dros dro am 4 wythnos ar 8 Ionawr. Mae ei gyflogwr yn rhoi gwybod iddo y gall ddisgwyl dychwelyd i'r gwaith ar 5 Chwefror. Mae John yn ffonio'r Llinell Gymorth i roi gwybod iddynt am hyn. Mae ef hefyd yn rhoi gwybod iddynt pryd y mae'n disgwyl dychwelyd i'r gwaith.

Ar 5 Chwefror, mae John yn mynd i'r gwaith. Does dim gwaith ar gael i John ac nid yw'n gwybod os oes yna waith iddo yn y dyfodol. Mae John yn ffonio'r Llinell Gymorth i roi gwybod ei fod wedi'i ddiswyddo am gyfnod amhenodol. Bydd John yn parhau i gael Credyd Treth Gwaith hyd at 5 Mawrth.

**Os bydd eich cyflogwr yn eich diswyddo dros dro ond ni all roi gwybod i chi a fyddwch yn cael eich ailgyflogi neu'n colli eich swydd**

Os bydd eich cyflogwr yn rhoi gwybod i chi yn ystod 4 wythnos gyntaf eich diswyddiad dros dro eich bod:

- bellach wedi'ch diswyddo dros dro am gyfnod amhenodol
- wedi colli'ch swydd

cewch eich trin fel petaech wedi stopio gweithio o'r diwrnod y rhoddodd wybod i chi. Byddwch yn dal i gael Credyd Treth Gwaith am 4 wythnos arall o'r dyddiad hwnnw.

**Enghraifft 2**

Mae Ann Jones yn cael ei diswyddo dros dro ar 8 Ionawr. Mae ei chyflogwr yn rhoi gwybod iddi y gall ddisgwyl dychwelyd i'r gwaith ar 1 Chwefror. Mae Ann yn ffonio'r Llinell Gymorth i roi gwybod iddynt ei bod wedi'i diswyddo dros dro. Ar 26 Ionawr, mae cyflogwr Ann yn rhoi gwybod iddi nad yw'n gwybod a fydd yn bosibl iddi ddychwelyd i'r gwaith o gwbl. Mae Ann yn ffonio'r Llinell Gymorth i roi gwybod iddynt ei bod wedi'i diswyddo am gyfnod amhenodol. Caiff Ann ei thrin fel petai wedi peidio â gweithio. Bydd Ann yn cael Credyd Treth Gwaith hyd at 23 Chwefror (4 wythnos o 26 Ionawr).

**Enghraifft 3**

Ar 8 Ionawr, rhoddir gwybod i Anwen Roberts bod ei chyflogwr wedi ei diswyddo dros dro am gyfnod amhenodol. Nid yw ei chyflogwr yn gwybod a fydd hi'n gallu mynd yn ôl i'w gwaith o gwbl. Mae Anwen yn ffonio'r Llinell Gymorth i roi gwybod iddynt fod ei diswyddiad dros dro am gyfnod amhenodol. Bydd Anwen yn cael Credyd Treth Gwaith hyd at 5 Chwefror.

Mae angen i chi roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl ynglŷn â newidiadau a allai gynyddu'ch dyfarniad credyd treth, megis:

- plentyn newydd yn y teulu
- dechrau defnyddio gofal plant cofrestredig neu gymeradwy
- eich costau gofal plant wythnosol cyfartalog yn codi £10 yr wythnos neu fwy
- cynnydd yn eich oriau gwaith (neu rai eich partner) fel eich bod yn bodloni'r amodau oriau gwaith ar gyfer Credyd Treth Gwaith, darllenwch dudalen 7

Er mwyn cael cynnydd wedi ei ôl-ddyddio o ddyddiad y newid yn eich amgylchiadau, rhaid i chi roi gwybod i ni cyn pen 1 mis.

## Newidiadau mewn incwm

I ddechrau caiff eich dyfarniad ei seilio ar eich incwm ar gyfer y flwyddyn dreth flaenorol.

Os yw'ch incwm yn ystod y flwyddyn dreth gyfredol yn codi llai na £2,500, ni fydd yn effeithio ar eich dyfarniad a byddwn yn dal i'w seilio ar eich incwm ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Felly, cewch fanteisio ar gynnydd mewn incwm o hyd at £2,500 ar gyfer y flwyddyn gyfredol, heb iddo ostwng eich dyfarniad credydau treth. Ni chaiff y cynnydd yn eich incwm ei gymryd i ystyriaeth tan y flwyddyn dreth nesaf ond dylech roi gwybod i ni am y cynnydd ar neu cyn 6 Ebrill er mwyn osgoi gordaliad o'ch taliadau dros dro.

Os yw'ch incwm yn gostwng £2,500 neu lai drwy gydol y flwyddyn, ni effeithir ar swm y credydau treth a gewch. Os yw'ch incwm yn y flwyddyn gyfredol yn is nag incwm y flwyddyn flaenorol gan fwy na £2,500, byddwn yn anwybyddu'r gostyngiad cyntaf o £2,500. Er enghraifft, os oedd eich incwm y llynedd yn £20,000 ac eleni rydych yn disgwyl iddo fod yn £15,000, byddwn yn cyfrifo'ch dyfarniad credydau treth ar incwm o £17,500. Yn yr achos hwn, mae'n bosibl y gallai mwy o gredyd treth fod yn ddyledus i chi. Gallwch wneud un o'r canlynol:

- rhoi gwybod i ni yn ystod y flwyddyn am y gostyngiad - byddwn wedyn yn addasu eich taliadau i sicrhau eich bod yn cael y swm cywir yn ystod y flwyddyn
- aros nes byddwn yn cwblhau'ch dyfarniad a byddwn yn talu unrhyw gredydau treth ychwanegol sy'n ddyledus i chi mewn cyfandaliad

Byddwn yn gwirio eich incwm ar ddiwedd y flwyddyn. Os byddwch wedi rhoi gwybod i ni yn ystod y flwyddyn bod eich incwm wedi lleihau a'i fod yn llai na'r hyn yr oeddech yn ei ddisgwyl, bydd yn rhaid i chi dalu unrhyw gredydau treth a fydd wedi'u gordalu i chi'n ôl.

Os bydd eich incwm yn cynyddu mwy na £2,500 yna byddwn yn cyfrifo eich dyfarniad terfynol ar sail eich incwm yn y flwyddyn gyfredol ar ôl diystyru £2,500 cyntaf y cynnydd. Byddwn, fodd bynnag, yn defnyddio'r incwm llawn wrth gyfrifo eich dyfarniad ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

## Beth sy'n digwydd os oes newidiadau yn eich dyfarniad credyd treth

Dylech roi gwybod i ni ar unwaith os credwch y bydd eich incwm yn codi mwy na £2,500 yn y flwyddyn dreth gyfredol. Bydd hyn yn eich helpu i osgoi cronni gordaliad credydau treth y byddai'n rhaid i chi ei dalu'n ôl ar ôl i ni gwblhau'ch dyfarniad ar ddiwedd y flwyddyn.

Os bydd eich dyfarniad credydau treth yn cynyddu oherwydd newid mewn amgylchiadau sy'n cynyddu eich hawliad, ac os ydych wedi rhoi gwybod i ni am hyn yn ystod y flwyddyn, byddwn:

- yn talu unrhyw gredydau treth ychwanegol am hyd at un mis cyn i'r addasiad gael ei wneud ar ffurf cyfandaliad
- yn cynyddu'ch dyfarniad am weddill y flwyddyn

Os yw'ch incwm wedi gostwng mwy na £2,500 ac rydych yn rhoi gwybod i ni am hyn yn ystod y flwyddyn, byddwn yn talu unrhyw gredydau treth ychwanegol sy'n ddyledus o'r dyddiad y rhoesoch wybod i ni amdano. Os canfyddwn ar ddiwedd y flwyddyn dreth bod mwy o gredydau treth yn ddyledus nag a dalwyd i chi oherwydd newid mewn amgylchiadau neu incwm, byddwn yn talu'r swm ychwanegol ar ffurf cyfandaliad. Dylech roi gwybod i ni ar unwaith os ydych yn credu y bydd eich incwm yn gostwng yn y flwyddyn dreth gyfredol. Efallai na fydd eich dyfarniad yn cynyddu yn y flwyddyn hon, ond mae'n bosibl y byddwch yn cael mwy flwyddyn nesaf.

Os bydd eich dyfarniad credydau treth yn gostwng oherwydd newid mewn amgylchiadau sy'n gostwng eich hawliad, neu o ganlyniad i gynnydd o fwy na £2,500 yn eich incwm rydych wedi rhoi gwybod i ni amdano yn ystod y flwyddyn, byddwn yn gostwng eich dyfarniad credydau treth am y cyfnod llawn fel y gallwn dalu'r swm cywir i chi am y flwyddyn gyfan.

Fel arall, os ydym wedi talu gormod i chi yn y flwyddyn dreth hon (neu un flaenorol) byddwn yn gostwng yn awtomatig y taliadau hynny sy'n parhau tan i chi ad-dalu'r arian a ordalwyd.

Bydd y swm y byddwn yn ei ddefnyddio i leihau'ch taliadau'n dibynnu ar faint o gredydau treth a gewch. Gwneir ein penderfyniad ar sail yr wybodaeth a roddwyd gennych ynglŷn â'ch incwm. Yr uchaf yw'ch incwm, y mwyaf y gostyngir eich credydau treth.

Gwiriwch eich hysbysiad o ddyfarniad i ganfod os cewch gredydau treth ar gyfradd ostyngol. Os ydych, fe'i dangosir fel 'gostyngiad o ganlyniad i'ch incwm' yn rhan 2 eich hysbysiad o ddyfarniad - 'Sut rydym wedi cyfrifo eich credydau treth'.

Ar gyfer y rhai hynny sydd â'r hawl i swm uchaf y credydau treth heb ostyngiad oherwydd incwm, y mwyaf y byddwn yn ei dynnu'n ôl yw 10% o'ch taliadau parhaus.

Os ydych yn cael Credyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith o dan y swm uchaf, ac mae cyfanswm incwm eich cartref yn £20,000 neu lai, y mwyaf y byddwn yn ei dynnu'n ôl yw 25% o'ch taliadau parhaus.

Os yw cyfanswm incwm eich cartref yn fwy nag £20,000, y mwyaf y byddwn yn ei dynnu'n ôl yw 50% o'ch taliadau parhaus.

Os ydych yn cael elfen deuluol y Credyd Treth Plant yn unig, byddwn yn didynnu hyd at 100% o'ch taliadau parhaus.

## Beth sy'n digwydd os ydych chi, neu'ch partner, yn hawlio Credyd Cynhwysol

Ni fyddwch bellach yn gymwys i gael credydau treth os ydych chi, neu'ch partner, yn hawlio Credyd Cynhwysol. Fel arfer, byddwn yn dod â'ch dyfarniad credydau treth i ben yn awtomatig yn unol â chyfarwyddiadau o'r Adran Gwaith a Phensiynau (neu'r Adran Cymunedau yng Ngogledd Iwerddon). Dylech roi gwybod i ni ar unwaith os yw'ch taliadau credydau treth yn parhau ar ôl i chi ddechrau cael Credyd Cynhwysol.

## Os ydych yn anghytuno â lefel eich dyfarniad credydau treth neu eich bod yn gorfod talu cosb

Os ydych o'r farn bod rhywbeth o'i le ar eich hysbysiad neu ar goll, yna cysylltwch â ni ar unwaith ac fe wnawn geisio'i unioni.

Os na allwn ddatrys eich problem gyda chredydau treth neu os ydych yn anghytuno â'r gosb a roddwyd i chi ac nid ydych yn fodlon, gallwch ofyn i ni ailedrych ar y penderfyniad. Rydym yn galw hyn yn 'ailystyriaeth orfodol'. Fel arfer, mae'n rhaid i chi wneud hyn cyn pen 30 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad o ddyfarniad.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch ein taflen wybodaeth WTC/AP, 'Beth i'w wneud os credwch fod eich Credyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith yn anghywir'.

Ewch i GOV.UK a chwilio am WTC/AP.

Pan fyddwn wedi bwrw golwg dros y penderfyniad eto, byddwn yn anfon Hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol atoch. Bydd yr Hysbysiad yn rhoi gwybod i chi beth yr ydym wedi'i wneud.

Os ydych yn dal i fod yn anfodlon gyda'r penderfyniad, bydd yr Hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i wneud apêl i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF (HMCTS) yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, neu'r Gwasanaeth Apeliadau yng Ngogledd Iwerddon. Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, gallwch apelio'n uniongyrchol ar dribiwnlys annibynnol heb ofyn am ailystyriaeth orfodol yn gyntaf. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'n bosibl y gallwch apelio'n uniongyrchol ar y Gwasanaeth Apeliadau.

I roi gwybod am newid, ewch i www.gov.uk/newidiadau-effeithio-credydau-treth

## 6 Help a chyngor

### Gadael y system credydau treth

Mae 3 rheswm pam y gallai'ch credydau treth ddod i ben:

1. Rydych yn ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900 neu'n ysgrifennu atom i roi gwybod nad ydych am hawlio.

   Os gwnewch hyn cyn 31 Gorffennaf, ni chaiff eich hawliad am y flwyddyn bresennol ei adnewyddu.

   Efallai y byddwch eisoes wedi cael taliadau dros dro am y flwyddyn bresennol y byddwn yn gofyn i chi eu had-dalu.

   Os cysylltwch â ni ar ôl 31 Gorffennaf, bydd eich hawliad yn parhau tan ddiwedd y flwyddyn dreth ond ni chaiff ei adnewyddu ar gyfer y flwyddyn dreth nesaf.

2. Cewch lythyr oddi wrthym i roi gwybod na fyddwn yn adnewyddu'ch hawliad ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae hyn oherwydd bod lefel eich incwm yn golygu nad ydych yn gymwys i gael taliadau credydau treth ar gyfer y flwyddyn nesaf.

   Os dymunwch adnewyddu'ch hawliad, dylech gysylltu â ni erbyn y dyddiad a welir ar y llythyr.

   Er na fyddwch efallai'n cael taliadau, gallwch adnewyddu a pharhau â'ch hawliad o hyd - os gwnewch hyn, bydd hyn yn gwarchod eich hawliad os bydd eich incwm yn disgyn yn hwyrach oherwydd na fydd angen i chi wneud hawliad newydd, neu, os ydych ar hyn o bryd yn gymwys ar gyfer elfen anabledd Credydau Treth Gwaith, gallech barhau i fod yn gymwys.

   P'un a ydych wedi gofyn i ni stopio eich hawliad neu rydym wedi ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi na fyddwn yn adnewyddu'ch hawliad, byddwn yn dal i anfon hysbysiad diwedd blwyddyn atoch. Dylech barhau i ddarparu unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani ar yr hysbysiad er mwyn i ni gwblhau eich hawliad ar gyfer y flwyddyn sydd newydd ddod i ben.

3. Rydych yn gwneud hawliad am Gredyd Cynhwysol neu rydych yn dechrau byw gyda phartner sydd eisoes yn cael Credyd Cynhwysol (ni allwch hawlio credydau treth a Chredyd Cynhwysol ar yr un pryd), hyd yn oed os nad oes gennych hawl i Gredyd Cynhwysol neu mae'r swm sydd genych hawl iddo yn is.

Pan fyddwch yn hawlio Credyd Cynhwysol, byddwn yn anfon hysbysiad 'yn ystod y flwyddyn' atoch. Dylech barhau i ddarparu unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani ar yr hysbysiad er mwyn i ni gwblhau eich hawliad ar gyfer y cyfnod 'yn ystod y flwyddyn'.

Mewn rhai achosion mae'n bosibl y gallem fod wedi talu gormod o gredydau treth i chi, gelwir hyn yn ordaliad. Gall hyn ddigwydd os ydych yn rhoi gwybod i ni nad ydych bellach am hawlio credydau treth ar gyfer y flwyddyn dreth newydd. Mae sut y byddwn yn delio â gordaliadau credydau treth wedi'i nodi yn ein Cod Ymarfer 26.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i GOV.UK a chwilio am COP26.

I gael rhagor o wybodaeth am help arall a allai fod ar gael, ewch i www.gov.uk/browse/benefits/families

I gael help gyda chostau iechyd, ewch i www.nhsbsa.nhs.uk a dewis '*Help with Health Costs*'.

I gael gwybodaeth ynghylch y cymorth ychwanegol sydd ar gael os yw'ch cyflwr iechyd neu'ch amgylchiadau personol yn ei gwneud yn anodd i chi gysylltu â CThEF, ewch i www.gov.uk/cael-help-cthem-cymorth-ychwanegol

Os ydych yn cael trafferth talu'ch biliau, gallwch gael cyngor ar ddyledion yn rhad ac am ddim yn www.gov.uk/debt-advice

## Pa help arall gallwch ei gael

Os yw'ch incwm yn is na ryw lefel benodol efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth, er enghraifft help gyda chostau gwasanaethau iechyd, a ddarperir gan adrannau eraill o'r llywodraeth, asiantaethau neu awdurdodau lleol. Efallai y bydd yn rhaid i chi ddefnyddio eich hysbysiad o ddyfarniad credydau treth fel prawf o'ch incwm ar gyfer y budd-daliadau a gwasanaethau hyn.

I gael gwybodaeth am y budd-daliadau a gwasanaethau hyn, bydd angen i chi gysylltu â'r sefydliad sy'n eu darparu.

Os ydych yn cael Budd-dal Tai, Gostyngiad y Dreth Gyngor (a elwir weithiau yn Gymorth gyda'r Dreth Gyngor), gallai'ch dyfarniad credydau treth effeithio ar swm y budd-daliadau y mae hawl gennych iddynt. Pan gewch eich hysbysiad o ddyfarniad neu hysbysiad adnewyddu, dylech gysylltu â swyddfa Budd-dal Tai, Gostyngiad y Dreth Gyngor (a elwir weithiau yn Gymorth gyda'r Dreth Gyngor) eich awdurdod lleol er mwyn iddynt ailasesu'ch achos.

## Budd-dal Plant

Os ydych yn hawlio Credyd Treth Plant oherwydd eich bod yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc cymwys, efallai y bydd hawl gennych i gael Budd-dal Plant hefyd. Os nad ydych wedi gwneud hynny'n barod dylech wneud hawliad am Fudd-dal Plant.

I gael rhagor o wybodaeth am Fudd-dal Plant, ewch i www.gov.uk/budd-dal-plant

Ysgrifennwch atom yn:
Swyddfa Budd-dal Plant
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF
HMRC
BX9 1ST

## Ynglŷn â Budd-dal Plant

Gallwch hawlio Budd-dal Plant os ydych yn magu plentyn neu berson ifanc cymwys.

Nid yw'n angenrheidiol mai chi yw rhiant y plentyn neu'r person ifanc er mwyn bod yn gymwys, ond rhaid i chi fod yn gyfrifol amdanynt.

Does dim rhaid i'r plentyn neu'r person ifanc fyw gyda chi, ond os ydynt yn byw gyda rhywun arall gallwch gael Budd-dal Plant dim ond:

- os ydych yn talu arian i fagu'r plentyn
- os yw'r swm a dalwch yr un faint neu'n fwy na chyfradd wythnosol y Budd-dal Plant a gewch ar ei gyfer
- os nad yw'r person y mae'r plentyn yn byw gydag ef yn cael Budd-dal Plant ar ei gyfer

Mae amodau cymhwyso ychwanegol yn berthnasol unwaith mae'r plentyn yn cyrraedd 16 oed.

## Pryd a sut i hawlio Budd-dal Plant

Gellir ôl-ddyddio Budd-dal Plant am hyd at 3 mis yn unig o'r dyddiad y daeth eich hawliad i law y Swyddfa Budd-dal Plant. I osgoi colli arian, gwnewch eich hawliad ar unwaith.

Dylech hawlio Budd-dal Plant cyn gynted ag:

- y mae'ch plentyn yn cael ei eni
- y mae plentyn neu berson ifanc rydych yn gyfrifol amdano yn dod i fyw gyda chi
- yr ydych yn mabwysiadu plentyn sy'n byw gyda chi
- yr ydych yn dechrau cyfrannu tuag at y gost o edrych ar ôl plentyn yr ydych yn gyfrifol amdano, ac mae'r swm yr ydych yn ei gyfrannu yr un faint neu'n fwy na swm wythnosol y Budd-dal Plant

Mae ffurflen hawlio Budd-dal Plant ar gael ar-lein yn www.gov.uk/government/publications/claim-child-benefit-if-you-cannot-claim-online.cy

Ewch i www.gov.uk/budd-dal-plant i gael rhagor o wybodaeth am Fudd-dal Plant

## Credydau Yswiriant Gwladol ar gyfer budd-daliadau nawdd cymdeithasol

I gael cyngor ar Yswiriant Gwladol, gan gynnwys credydau Yswiriant Gwladol ac Eithriad Enillion Bach, ewch i www.gov.uk/personal-tax

# 7 Credyd Cynhwysol a chredydau treth

Mae credydau treth wedi cael eu disodli gan Gredyd Cynhwysol ar gyfer y rhan fwyaf o bobl.

I roi gwybod am newid, ewch i www.gov.uk/newidiadau-effeithio-credydau-treth

I gael rhagor o wybodaeth am hawlio:
- Credyd Cynhwysol - ewch i www.gov.uk/credyd-cynhwysol
- Credyd Pensiwn - ewch i www.gov.uk/credyd-pensiwn

Mae'r Credyd Cynhwysol yn rhoi cymorth i bobl sydd ar incwm isel neu allan o waith ac mae wedi disodli ystod o fudd-daliadau presennol, gan gynnwys y Credyd Treth Gwaith a'r Credyd Treth Plant. Mae'ch cymhwystra i gael Credyd Cynhwysol yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol.

Mae'n bosibl y gallwch hawlio:

- Credyd Cynhwysol os ydych chi (neu'ch partner) o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth
- Credyd Pensiwn os ydych chi (a'ch partner) dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth

Ni allwch gael taliadau Credyd Cynhwysol a thaliadau credydau treth ar yr un pryd.

Os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol bydd eich credydau treth yn dod i ben hyd yn oed os nad oes gennych hawl i Gredyd Cynhwysol. Os ydych eisoes yn cael credydau treth, nid oes angen i chi wneud unrhyw beth ar hyn o bryd. Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau (neu'r Adran Cymunedau yng Ngogledd Iwerddon) yn ysgrifennu atoch i roi gwybod pryd y bydd angen i chi hawlio Credyd Cynhwysol, neu Gredyd Pensiwn os ydych wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Dylech barhau i hysbysu ar unwaith ynghylch newidiadau yn eich amgylchiadau a allai effeithio ar eich credydau treth. Os yw'ch newid mewn amgylchiadau yn golygu eich bod yn hawlio Credyd Cynhwysol, er enghraifft, os byddwch yn colli eich swydd neu'n dechrau byw gyda phartner sydd eisoes yn cael Credyd Cynhwysol, bydd eich taliadau credyd treth yn dod i ben.

I gael rhagor o wybodaeth am Gredyd Cynhwysol, ewch i www.gov.uk/credyd-cynhwysol

## 8 Eich hawliau a'ch rhwymedigaethau

Mae 'Siarter CThEF' yn egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni, a'r hyn a ddisgwyliwn gennych chi.

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn www.gov.uk/government/publications/hmrc-charter.cy

Os byddwch yn rhoi gwybodaeth anghywir i ni, efallai byddwn yn codi cosb hyd at £3,000 arnoch, neu gallwn eich erlyn.

Mae ein taflen WTC7, 'Cosbau Credyd Treth' yn rhoi rhagor o wybodaeth am gosbau. I gael copi:

ewch i gov.uk/cymraeg a chwilio am WTC7
ffoniwch Wasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900 os nad oes gennych fodd o ddefnyddio'r rhyngrwyd

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn, sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.
Grŵp Gwasanaeth i Gwsmeriaid CThEF
Ebrill 2024 © Hawlfraint y Goron 2024
CThEF 04/24